
Cynllun Blynyddol Arfaethedig 2019/20

Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 3 Rhagfyr 2018

Dyddiad Olaf ar gyfer Derbyn Ymatebion 8 Chwefror 2019

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg
2. Cyd-destun y farchnad
3. Ein nodau ac uchafbwyntiau'r prosiectau ar gyfer 2019/20
4. Gwaith parhaus i gyflawni ein nodau a'n dyletswyddau
5. Cyflawni ein nodau ar draws y DU
6. Sicrhau gwerth am arian

Atodiad

A1. Yr hyn rydyn ni'n ei wneud	23
A2. Rhaglen Waith ar gyfer 2019/20	25
A3. Ymateb i'r ymgynghoriad	366
A4. Egwyddorion Ymgynghori Ofcom	39
A5. Dalen Gyflwyno'r Ymgynghoriad	409

1. Trosolwg

- 1.1 Prif ddyletswydd Ofcom yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd ein Cynllun Blynyddol terfynol, a gyhoeddir ym mis Mawrth 2019, yn ystyried ymatebion a fydd wedi'u derbyn gan randdeiliaid i'r ddogfen hon. Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ymatebion i'n Cynllun Blynyddol arfaethedig yw 8 Chwefror 2019.
- 1.2 Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, rydym yn disgwyl y bydd y defnydd o wasanaethau ar-lein yn dal i gynyddu, gan gynnwys mwy o bobl yn gwyllo cynnwys fideo ar-lein. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd cwmpas ac ansawdd rhwydweithiau symudol a band eang yn parhau i wella, drwy gyfuniad o fuddsoddi masnachol a chefnogaeth gan y llywodraeth. Bydd ein gwaith yn adlewyrchu'r themâu hyn.
- 1.3

Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf

Symud tuag at sefyllfa lle bydd rhwydweithiau cyfathrebu diogel o ansawdd uchel ar gael i bawb yn ddiwahân

Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau band eang ar gael i bawb yn ddiwahân drwy ddynodi darparwr/darparwyr gwasanaeth cyffredinol (USPs) band eang a gosod yr amodau a fydd yn berthnasol iddynt. Rydym hefyd am gael darpariaeth symudol cyffredinol i bawb a byddwn yn gweithio gyda llywodraethau a diwydiant i gyflawni hyn.

Byddwn yn gweithio i wella ansawdd band eang drwy gefnogi buddsoddiad hirdymor mewn rhwydweithiau ffeibr. Byddwn yn cyhoeddi datganiad am ein hasesiad o'r farchnad ar gyfer seilwaith ffisegol, gyda'r bwriad o gyflwyno mynediad anghyfyngedig at bibellau a pholion. Ar gyfer rhwydweithiau symudol, byddwn yn paratoi ar gyfer dyfarnu bandiau sbectrwm (700MHz a 3.6-3.8 GHz) wrth iddynt gael eu clirio a'u rhyddhau.

Byddwn yn datblygu ein gallu i sicrhau bod darparwyr yn gwneud eu rhwydweithiau'n ddiogel ac yn gadarn. Byddwn yn sefydlu gofynion o dan reoliadau'r Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS), sy'n gosod goblygiadau cyfreithiol ar ddarparwyr i ddiogelu gwasanaethau hanfodol y DU, gan barhau i gefnogi llywodraeth y DU ar faterion sicrwydd o ran seiberddiogelwch.

Cynnal cynnwys a ddarllidir o safon uchel ar gyfer cynulleidfaoedd

Byddwn yn cynnal ac yn cryfhau darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan ystyried amlygrwydd cynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac effeithiau'r newidiadau yn nemograffeg cynulleidfaoedd. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ein hadroddiadau blynyddol ar amrywiaeth a chyfle cyfartal yn niwydiannau radio a theledu'r Deyrnas Unedig.

Byddwn yn cyhoeddi adolygiad o sut mae'r BBC yn addasu i newidiadau yn yr amgylchedd newyddion a materion cyfoes i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn dal yn ymddiried yn ddo fel gwasanaeth i droi ato. Bydd ein hadolygiad yn edrych ar sut mae'r BBC yn darparu amrywiaeth o gynnwys a dadansoddiadau treiddgar ar draws y teledu, radio ac ar-lein.

Diogelu defnyddwyr rhag arferion prisio niweidiol

Mae gennym raglen waith sylweddol, sy'n cynnwys sicrhau prisiau tecach, mwy tryloyw i ddefnyddwyr sy'n talu am y ffôn ac am amser ar yr awyr o dan yr un contract, ac asesu tegwch arferion prisio yn y farchnad band eang sefydlog, lle gall defnyddwyr fod yn talu mwy am wasanaethau cyfathrebu oherwydd statws eu contract neu nodweddion y defnyddiwr.

Parhau i arloesi yn ein gwaith rheoleiddio

Byddwn yn cymryd rhan yn y drafodaeth am y posibilrwydd o reoleiddio cynnwys niweidiol ar-lein, gan ddarparu ymchwil a gweithio gyda rheoleiddwyr eraill i roi gwybodaeth i wneuthurwyr polisi fel rhan o'n dyletswyddau llythrennedd-yn-y-cyfyngau presennol. Byddwn yn rhoi mewnbwn i'r Llywodraeth, yn ôl yr angen, wrth i unrhyw gynigion gael eu datblygu ar gyfer deddfwriaeth yn y maes hwn. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar y symud tuag at gyflwyno gwasanaethau cyfathrebu ar-lein mewn perthynas â'n dyletswyddau presennol. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar sut mae cynnal amlygrwydd gwasanaethau a chynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn byd ar-lein.

2. Cyd-destun y farchnad

- 2.1 Mae arloesi ac anghenion defnyddwyr a busnesau sy'n newid yn ysgogi newid sydyn yn y marchnadoedd cyfathrebiadau. Wrth gyflwyno'r cynllun hwn, rydym wedi edrych ar sut mae'r farchnad yn newid a sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar bobl. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at rai o'r materion trawsbynciol sydd wedi dylanwadu ar ein dull gweithredu.

Mae gan y rhyngwrwd rôl allweddol ym mywydau y rhan fwyaf o bobl, gan sicrhau manteision ond yn codi pryderon hefyd i ddefnyddwyr

- 2.2 Mae bron i naw o bob deg oedolyn yn y DU ar-lein erbyn hyn, gyda 64% yn dweud ei fod yn rhan hanfodol o'u bywyd.¹ Wrth i'r rhyngwrwd ddod yn bwysicach i bobl, mae'r amser maent yn ei dreulio ar-lein wedi cynyddu. Roedd ymchwil Ofcom yn dangos bod oedolion sy'n defnyddio'r rhyngwrwd yn treulio 24 awr yr wythnos ar gyfartaledd ar-lein, bron i ddwywaith yr amser a oedd yn cael ei dreulio arno yn 2007.²
- 2.3 Mae defnyddwyr yn cael gafael ar amrywiaeth eang o wasanaethau ar-lein drwy ddefnyddio dyfeisiau clyfar gwahanol. Mae'r nifer sydd â setiau teledu clyfar a ffonau symudol (y ddyfais a ddefnyddir amlaf erbyn hyn i fynd ar y rhyngwrwd yn y DU) wedi cynyddu'n gyson.³ Mae hyn wedi gwella mynediad i gynnwys drwy wasanaethau dal-i-fyny, fideo ar alwad (VoD), gwasanaethau llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a ffrydio. Mae mwy o ddefnyddwyr y rhyngwrwd erbyn hyn yn gwrando ar safleoedd ffrydio sain,⁴ ac mae gwrando ar bodlediadau'n dod yn fwy poblogaidd.⁵ Mae gwasanaeth negeseua ar y we drwy lwyfannau fel WhatsApp a Facebook wedi cynyddu hefyd wrth i wasanaethau negeseua SMS ac MMS ostwng.
- 2.4 Mae pobl yn elwa o'r amrywiaeth o wasanaethau ar-lein sydd ar gael iddynt. Mae mwy o ddewis ac amrywiaeth o adloniant ar-lein, sy'n galluogi pobl i ddod o hyd i gynnwys y maent am ei gael. Mae dulliau cyfathrebu newydd hefyd yn helpu pobl i gadw mewn cysylltiad ag eraill ac i weithio'n fwy hyblyg.
- 2.5 Ond, mae mwy a mwy o bryderon am ddiogelu pobl ar-lein. Mae astudiaeth ddiweddar a gomisiynwyd gan Ofcom a'r ICO yn awgrymu bod pobl yn poeni fwyaf am faterion fel: amddiffyn plant; dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol neu ryngweithiadau niweidiol; a

¹ Ofcom, *Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu 2018*, t.14:

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0022/117256/CMR-2018-narrative-report.pdf

² Ofcom, *Adroddiad ar agweddau oedolion a'u defnydd o gyfryngau 2018*, t.41:

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0011/113222/Adults-Media-Use-and-Attitudes-Report-2018.pdf

³ Ers dyfodiad yr iPhone a lansio BBC iPlayer yn 2007, gwelwyd cynnydd cyson yn y defnydd o ddyfeisiau wedi'u cysylltu ar draws poblogaeth y DU, gyda pedwar o bob pump o ddefnyddwyr y DU yn berchen ar ffonau clyfar a setiau teledu clyfar mewn bron i hanner yr holl gartrefi.

⁴ Ofcom, *Adroddiad ar agweddau oedolion a'u defnydd o gyfryngau 2018*, t.112.

⁵ Ofcom, *Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu 2018*, t.44.

defnyddio data a phreifatrwydd ar-lein.⁶ Mae rhagor o bryderon hefyd y bydd y rheini nad ydynt yn gallu cyrchu a defnyddio'r rhyngwrwd yn effeithiol, neu nad ydynt mor abl i wneud hynny, yn cael eu hamddifadu o'r manteision mae'r rhyngwrwd yn eu darparu ac y bydd ganddynt lai o ddewis wrth i wasanaethau symud ar-lein. Efallai hefyd eu bod yn fwy bregus ar-lein.

Mae twf mewn gwasanaethau ar-lein yn cael ei alluogi gan seilwaith telegyfathrebiadau, sy'n gofyn am ragor o fuddsoddi

- 2.6 Fwyfwy, mae pobl yn disgwyl gallu mynd ar y rhyngwrwd lle bynnag y maent. Defnyddiodd y ffôn symudol cyffredin 1.9GB o ddata y mis yn 2017, i fyny o 1.3GB yn 2016. Cododd y defnydd o ddata band eang sefydlog o 132GB y cartref y mis i 190GB dros yr un cyfnod.⁷ Bydd angen i gwmnïau barhau i wella cwmpas ac ansawdd eu rhwydweithiau i'w cwsmeriaid a hefyd gwella'r broses o reoli a diogelu'r traffig ar eu rhwydweithiau.
- 2.7 Mae cwmnïau llinell sefydlog yn buddsoddi mewn band eang cyflym iawn a band eang gwibgyswllt. Ond, mae'r nifer sydd wedi manteisio ar y rhain wedi bod yn gymharol isel o ystyried faint o'r gwasanaethau hyn sydd ar gael. O'r herwydd mae prisiau wedi cael eu gostwng i ysgogi diddordeb yn y gwasanaethau hyn.⁸ Mae cwmnïau wedi gallu bod yn fwy effeithiol yn *moneteiddio*'r defnydd cynyddol o ddata symudol. Mae canran y bobl sy'n defnyddio'r rhyngwrwd drwy ffôn symudol wedi cynyddu o 66% i 72% yn 2018.⁹ Mae hyn wedi galluogi cwmnïau i gynhyrchu refeniw drwy gynnig mwy o ddata am brisiau uwch. Maent wedi gweld rhagor o dwf drwy gynnig contractau sy'n cynnwys cynigion ar gyfer gwasanaethau ar-lein fel Spotify a Netflix.
- 2.8 Mae'r rhagolygon yn gwella ar gyfer rhagor o fuddsoddi. Mae cwmnïau ffeibr llawn¹⁰ fel CityFibre a Gigaclear wedi sicrhau buddsoddwyr newydd ac fe gododd Hyperoptic £250m mewn cyllid dyledion newydd. Mae CityFibre ers hynny wedi dweud y bydd yn buddsoddi £2.5bn i gefnogi ei ymrwymiad i gysylltu pum miliwn o gartrefi'r DU i fand eang ffeibr llawn. Mae Ofcom hefyd wedi cynnal arwerthiant llwyddiannus o'r sbectrum radio 2.3 a 3.4GHz yn 2018 i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau symudol.

⁶ Ofcom, *Internet user's experience of online harms research*: <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/internet-and-on-demand-research/internet-use-and-attitudes/internet-users-experience-of-harm-online>

⁷ Ofcom, *Adroddiad Cysylltu'r gwledydd 2017*, t.8:

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0024/108843/summary-report-connected-nations-2017.pdf

⁸ Mae hyn wedi rhoi cyfle i lawer o ddefnyddwyr gael gafael ar wasanaethau rhatach, ond efallai y bydd rhai defnyddwyr sy'n ei chael yn fwy anodd cael gafael ar y bargeinion gorau, neu sy'n byw mewn ardaloedd lle nad yw gwasanaethau cyflym iawn neu wibgyswllt ar gael ar hyn o bryd, yn talu prisiau uwch oherwydd hynny.

⁹ Ofcom, *Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu 2018*, t.11.

¹⁰ Mae rhwydweithiau ffeibr llawn yn defnyddio cebl ffeibr optig o'r gyfnewidfa i gartref neu swyddfa'r cwsmer ac yn gallu darparu cyflymderau o 1Gbit yr eiliad a mwy.

Mae llawer yn gwyllo cynnwys ar y teledu, ac mae darlledwyr yn addasu wrth i gynulleidfaeod wyllo mwy a mwy o gynnwys ar-lein

- 2.10 Mae llawer o bobl yn dal i wyllo teledu a ddarlledir, ond mae'r farchnad yn heriol, yn arbennig ar gyfer teledu lleol.¹¹ Mae cynnwys a ddarlledir yn gyfrifol am 71% o'r holl wyllo ar y teledu (4% o ostyngiad ers y llynedd).¹² Mae refeniw hysbysebu ar y teledu wedi bod yn weddol fflat dros y pum mlynedd diwethaf, gyda 7.5% o ostyngiad mewn termau real yn 2017.¹³
- 2.11 Mae chwaraewyr cyfryngau ar-lein wedi cynyddu'r gystadleuaeth mewn perthynas â chynhyrchu a chyflwyno cynnwys. Eleni am y tro cyntaf, cafwyd mwy o danysgrifiadau ar gyfer fideo ar-alw na thanysgrifiadau ar gyfer teledu drwy dalu traddodiadol. Mae pobl erbyn hyn yn gwyllo 88 munud ar gyfartaledd o gynnwys nad yw'n cael ei ddarlledu ar eu teledu bob dydd. Mae gwyllo teledu sy'n cael ei ddarlledu'n fyw wedi gostwng wrth i'r defnydd o ffonau clyfar, setiau teledu cysylltiedig a gwasanaethau ar-alw gynyddu. Mae cynulleidfaeod hefyd yn cael eu denu gan wasanaethau cynnwys symudol a ffrydio newydd (fel chwaraeon byw ar y cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau rhannu fideos).¹⁴
- 2.12 Mae darlledwyr traddodiadol yn arloesi er mwyn cystadlu yn y dirwedd hon sy'n newid. Mae llawer ohonynt wedi datblygu strategaethau digidol, ac yn buddsoddi ynddynt. Mae'r rhain wedi cynnwys gwelliannau i'r ffordd y maent yn darparu cynnwys ar-lein (fel y BBC yn cyhoeddi cyfresi ar iPlayer) a chydweithio â darlledwyr eraill (fel y cynnig ar draws llwyfannau rhwng Sky a Channel 4). Efallai hefyd y bydd darlledwyr yn dewis buddsoddi mewn gwasanaethau ar-alw newydd.

Mae radio yn addasu i'r cynnydd yn y nifer sy'n gwrando ar-lein

- 2.13 Mae radio yn dal yn boblogaidd er gwaetha'r gystadleuaeth oddi wrth wasanaethau sain ar-lein. Mae naw o bob deg o oedolion yn y DU yn gwrando ar y radio bob wythnos am bron i 21 awr yr wythnos ar gyfartaledd, ac mae 75% o'r holl wrando yn digwydd ar radio byw.¹⁵ Cafwyd 1% o gynnydd mewn termau real yn refeniw radio masnachol rhwng 2016 a 2017, i £557m.
- 2.14 Mae radio traddodiadol yn parhau i goleddu fformatau digidol. Mae dros 50% o'r holl wrando ar y radio yn cael ei wneud yn ddigidol erbyn hyn. Er gwaethaf hyn, mae gwrando drwy analog yn dal yn gryf, yn enwedig mewn ceir, ar gyfer cynulleidfaeod hŷn ac yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.
- 2.15 Mae'r diwydiant radio yn dal i addasu i ddisgwyliadau defnyddwyr am gynnwys ar-lein. Mae gwrando ar bodlediadau wedi cynyddu, yn arbennig ymysg pobl ifanc, ac mae llawer o

¹¹ Ofcom, *Cyfryngau'r Genedl: y DU 2018*, t.6: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf

¹² Ofcom, *Cyfryngau'r Genedl: y DU 2018*, t.20.

¹³ Ofcom, *Cyfryngau'r Genedl: y DU 2018*, t.34.

¹⁴ Ofcom, *Cyfryngau'r Genedl: y DU 2018*.

¹⁵ Ofcom, *Cyfryngau'r Genedl: y DU 2018*, t.75.

ddarllledwyr radio traddodiadol wedi cyflwyno eu podlediadau eu hunain erbyn hyn. Wrth i ddarllledwyr barhau i ddarparu cynnwys ar-lein, bydd angen iddynt ystyried sut i'w gwneud hi'n hawdd dod o hyd i'r cynnwys, sut mae creu gwasanaethau sydd am weithio gyda thechnolegau newydd (fel siaradwyr clyfar a chwilio llafar) a sut i ddatblygu modelau hysbysebu ar gyfer fformatau ar-lein.

Mae e-fasnach yn ysgogi twf yn y diwydiant dosbarthu parseli tra mae cyfathrebiadau electronig yn achosi gostyngiad yn nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon

- 2.16 Mae'r DU yn farchnad bwysig ar gyfer e-fasnach. Mae tua 72% o ddefnyddwyr y rhyngwrwyd yn y DU yn siopa ar-lein erbyn hyn, tri phwynt canran yn fwy nag yn 2017. Cafodd y ddau safle manwerthu mwyaf poblogaidd, Amazon ac eBay, eu defnyddio gan 89% (Amazon) a 69% (eBay) o ddefnyddwyr ar-lein y DU. Mae gwerthu llyfrau, cerddoriaeth a DVDS/fideos ar-lein wedi hen sefydlu yn y DU. Mae gwasanaeth dychwelyd nwyddau am ddim hefyd wedi helpu i gynyddu faint o ddillad, ategolion a gemwaith sy'n cael eu gwerthu ar-lein, gyda nifer y bobl a brynodd y nwyddau hyn ar-lein wedi cynyddu saith pwynt canran i 40% yn ystod hanner cyntaf 2018.¹⁶
- 2.17 Mae cwmnïau dosbarthu parseli yn buddsoddi er mwyn delio â mwy o barseli. Cafwyd 12% o gynnydd yn y niferoedd rhwng 2016 a 2017, i 2,342 miliwn o eitemau. Mewn ymateb i hyn, mae cwmnïau dosbarthu parseli yn y DU yn buddsoddi mewn cyfleusterau a chyfarpar newydd. Er enghraifft, mae'r Post Brenhinol yn bwriadu adeiladu canolfan bost newydd yn Inverness, mae UPS wedi cael caniatâd i ymestyn ei wasanaeth parseli ym Maes Awyr Dwyrain Canolbarth Lloegr, ac mae DPD yn bwriadu adeiladu canolfan barseli newydd yn Swydd Caerlŷr. Mae buddsoddiad blaenorol gan Hermes mewn canolfan dosbarthu parseli yn awtomatig yn Rugby wedi arwain at 45% o gynnydd yng nghapasiti prosesu'r cwmni.
- 2.18 Yn y cyfamser, mae nifer y llythyrau a'r refeniw cysylltiedig yn gostwng. Gwelwyd 5% o ostyngiad i 11.2 biliwn o eitemau yn 2017 yn nifer y llythyrau wedi'u cyfeirio. Yn gyffredinol, gostyngodd refeniw o lythyrau 6% i £4,082m dros yr un cyfnod. Mae hyn yn adlewyrchu'r gostyngiadau mewn eitemau post, fel biliau a datganiadau, sy'n cael eu hanfon fwyfwy yn electronig, a phost hysbysebu. Mae cwmnïau dosbarthu'n ystyried ffrydiau refeniw newydd drwy wasanaethau fel rheoli'r ystafell bost, argraffu a thracio.¹⁷

¹⁶ Ofcom, *Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu 2018*, t.87.

¹⁷ Ofcom, *Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu 2018*, t.83.

3. Ein nodau ac uchafbwyntiau'r prosiectau ar gyfer 2019/20

- 3.1 Pwrpas Ofcom yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Mae defnyddwyr yn ganolog i'r gwaith hwn. I gyflawni hyn, rydym yn canolbwyntio ar dri nod strategol hirdymor, lefel uchel:
- **Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr.** Ein nod yw sicrhau bod defnyddwyr a busnesau yn elwa o amrywiaeth o wasanaethau a chynnyrch cyfathrebu, gyda'r farchnad yn darparu amrywiaeth o ran dewis, pris, ansawdd, buddsoddi ac arloesi. Rydym yn gwneud hyn drwy sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol, drwy reoleiddio lle bo'n briodol, fel y gall defnyddwyr elwa o gystadleuaeth a buddsoddiad.
 - **Sicrhau safonau a gwella ansawdd i ddefnyddwyr.** Ein nod yw sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu a darlledu o ansawdd da ar gael yn eang i ddefnyddwyr a chwsmeriaid ledled y DU, a sicrhau eu bod yn fforddiadwy ac yn hygyrch. Er bod cystadleuaeth wrth wraidd ein dull o ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr, rydym yn cydnabod na all cystadleuaeth yn unig wneud hyn. Lle bo'n briodol, rydym yn ymyrryd er mwyn gwella canlyniadau.
 - **Amddiffyn defnyddwyr rhag niwed.** Ein nod yw sicrhau nad yw defnyddwyr yn wynebu arferion niweidiol a sicrhau bod defnyddwyr bregus yn cael eu diogelu rhag niwed penodol. Gwnawn hyn drwy gamu i mewn yn uniongyrchol i warchod defnyddwyr, yn enwedig grwpiau bregus sydd mewn perygl o gael eu niweidio. Rydym yn rhoi rhagor o fesurau ar waith os oes perygl y bydd rhywun yn agored i ymddygiad niweidiol gan gwmnïau, neu i roi sylw i gynnwys tramgwyddus ar y teledu neu'r radio.
- 3.2 Eleni, byddwn yn blaenoriaethu gwaith sy'n symud y DU tuag at sefyllfa lle bydd rhwydweithiau cyfathrebu diogel o ansawdd uchel ar gael i bawb, gan gynnal cynnwys a ddarlledir o safon uchel a diogelu defnyddwyr rhag arferion prisio niweidiol. Byddwn hefyd yn parhau i ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth y DU ac arloesi yn ein gwaith rheoleiddio.
- 3.3 Isod, rydym yn cyflwyno ein prif feysydd gwaith ar gyfer 2019/20,¹⁸ gan gynnwys manylion prosiectau penodol a beth rydym yn disgwyl iddynt ei ddarparu. Mae ein cynllun gwaith ehangach, gan gynnwys y meysydd gwaith yma, i'w gael yn Atodiad 2.

Symud tuag at sefyllfa lle bydd rhwydweithiau cyfathrebu diogel ac o ansawdd uchel ar gael i bawb yn ddiwahân

- 3.4 **Symud tuag at sefyllfa lle bydd gwasanaethau symudol a band eang ar gael i bawb yn ddiwahân.**

¹⁸ Mae hyn ar gyfer y flwyddyn ariannol; mae Ch1 yn cychwyn ym mis Ebrill.

- Un uchelgais i ni yw sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu ar gael i bawb, gan weithio gydag eraill, gan gynnwys llywodraethau a diwydiant lle bo angen, i wireddu hyn. Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau band eang ar gael i bawb yn ddiwahân drwy ddynodi darparwr/darparwyr gwasanaeth cyffredinol (USPs) band eang a gosod yr amodau a fydd yn berthnasol iddynt. Bydd hyn yn helpu'r rheini nad ydynt yn gallu cael band eang teilwng ar hyn o bryd. Byddwn yn cyhoeddi datganiad am hyn yn Ch1.
- Yn y flwyddyn i ddod ac yn ychwanegol at ein gwaith arfaethedig yn dyfarnu sbectrwm radio, byddwn yn edrych ar amrywiaeth o dechnolegau ac opsiynau polisi a allai helpu i wella'r ddarpariaeth symudol, yn arbennig i ddefnyddwyr mewn ardaloedd gwledig. Byddwn yn cyhoeddi datganiad yn Ch2 ar atebion posibl seiliedig ar sbectrwm i wella'r ddarpariaeth symudol dan do ac mewn cymunedau gwledig. Byddwn hefyd yn edrych ar sut y gellir mesur darpariaeth symudol a rhoi gwybodaeth gliriach i ddefnyddwyr am hyn.

3.5 **Hyrwyddo buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr.** Bydd hyn yn cynnwys gwaith i gefnogi buddsoddiad hirdymor mewn rhwydweithiau ffeibr i annog cystadleuaeth ac arloesi. Byddwn yn cyhoeddi datganiad yn Ch2 am ein hasesiad o'r farchnad ar gyfer seilwaith ffisegol, gyda'r bwriad o gyflwyno mynediad anghyfyngedig at bibellau a pholion.

3.6 **Cefnogi gwelliant yn ansawdd gwasanaethau symudol.** Byddwn yn paratoi i ddyfarnu bandiau sbectrwm (700 MHz a 3.6 - 3.8 GHz) wrth iddynt gael eu clirio a'u rhyddhau. Byddwn yn parhau i ddatblygu cynigion ar gyfer rhwymedigaethau trwydded newydd a fyddai'n gofyn am wella'r ddarpariaeth symudol mewn ardaloedd gwledig, yn gysylltiedig â dyfarnu'r band sbectrwm 700 MHz. Bydd datganiad yn cael ei gyhoeddi yn Ch3, a disgwylir y bydd ceisiadau am yr arwerthiant yn cychwyn ym mis Rhagfyr 2019.

3.7 **Paratoi ar gyfer lansio gwasanaethau symudol 5G.** Byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o oblygiadau rheoleiddio cyflwyno technolegau 5G. Bydd hyn yn cynnwys deall goblygiadau gweithredu'r broses o hollti rhwydwaith (*network slicing*) dan reoliadau niwtraliaeth y rhyngwrwd, ystyried defnyddio technolegau 5G i ddarparu gwasanaethau diwifr sefydlog a thrafod manteision gwasanaethau 5G gyda defnyddwyr a busnesau. Byddwn hefyd yn gweithio i ddeall cryfderau'r signal sy'n ofynnol i ddarparu gwasanaeth da ar draws yr ystod llawn o wasanaethau 5G. Byddwn yn darparu cymorth rheoleiddio ar gyfer profion y diwydiant ac ar gyfer cyflwyno'r gwasanaethau'n gynnar gydol y flwyddyn, i sicrhau canlyniadau da i ddiwydiant a defnyddwyr y DU.

3.8 **Meithrin gallu ym maes seiberddiogelwch a pharhau i sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau'n rheoli risgiau diogelwch ac yn sicrhau lefelau priodol o gadernid.** Byddwn yn rhoi Rheoliadau'r Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS) ar waith. Mae'r rhain yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol ar ddarparwyr i ddiogelu gwasanaethau hanfodol y DU. Mae DCMS yn cwblhau dau beilot a gynhaliwyd ganddynt mewn perthynas â'r cynllun 'TBEST' - cynllun profion hacio ar sail gwybodaeth am fygythiadau sy'n asesu sut mae cwmni'n gwrthsefyll ymosodiad seiliedig ar y technegau y gwyddom fod seiberdroseddwy'r gwledydd gelyniaethus yn eu defnyddio. Unwaith y bydd y rhain

wedi'u cwblhau, byddwn yn lansio ein cynllun TBEST yn gynnar yn 2019. Hefyd, rydym yn bwriadu lansio fframwaith asesu cydymffurfiad yng nghyswllt diogelwch yn gynnar yn 2019.

Cynnal cynnwys a ddarllidir o ansawdd uchel ar gyfer cynulleidfaoedd

- 3.9 **Cynnal darlledu gwasanaeth cyhoeddus.** Byddwn yn parhau i gynnal a chryfhau darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys ystyried cwestiynau polisi sy'n deillio o'r amlygrwydd sydd i gynnwys Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus ac effeithiau'r newidiadau yn nemograffeg cynulleidfaoedd a'r sialensiau mae cystadleuwyr newydd yn eu hachosi. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ein hadroddiadau blynyddol ar amrywiaeth a chyfle cyfartal yn niwydiannau radio a theledu'r Deyrnas Unedig.
- 3.10 **Cyhoeddi adolygiad o ddeunydd newyddion a materion cyfoes y BBC.** Bydd ein hadolygiad yn edrych ar y ffordd mae'r BBC yn addasu i'r amgylchedd newyddion sy'n newid i sicrhau bod ei gynulleidfaoedd yn dal i ymddiried ynddo. Byddwn yn edrych ar sut mae'n darparu amrywiaeth o gynnwys a dadansoddiadau treiddgar ar draws y teledu, radio ac ar-lein. Byddwn hefyd yn ystyried sut mae'r BBC yn sicrhau didueddrwydd, gan asesu'r offer a'r technegau mae'n eu defnyddio i wneud hyn.

Diogelu defnyddwyr rhag arferion prisio niweidiol

- 3.11 **Gwella'r prisiau ar gyfer contractau ffôn ac amser ar yr awyr symudol wedi'u bwndelu.** Byddwn yn gweithio i sicrhau prisiau tecach a mwy tryloyw ar gyfer cwsmeriaid syn talu am ffonau symudol ac amser ar yr awyr dan yr un contract. Byddwn yn cyhoeddi datganiad yn Ch3.
- 3.12 **Ystyried arferion prisio gwahaniaethol.** Byddwn yn asesu tegwch arferion prisio sy'n golygu bod defnyddwyr yn talu mwy am wasanaethau cyfathrebu oherwydd statws eu contract, hyd y contract neu nodweddion eraill.

Ymgysylltu yn ystod newidiadau i ddeddfwriaeth y DU

- 3.13 Fel rheoleiddiwr cyfryngau a thelegyfathrebiadau'r DU - yn niwtral ac yn annibynnol ar y Llywodraeth a'r cwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio gennym - nid oes gan Ofcom farn ar Brexit. Ond rydym yn llwyr gefnogi awydd y Llywodraeth i weld rheoleiddio effeithiol yn parhau, a hynny'n cael ei sicrhau drwy gydweithio clos â phartneriaid Ewropeaidd. Rydym yn parhau i gynghori'r Llywodraeth ar destunau sy'n ymwneud â'r sectorau rydym yn eu rheoleiddio.
- 3.14 Lle bo hynny'n briodol ac yn angenrheidiol, byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth i droi deddfwriaeth Ewropeaidd berthnasol yn gyfraith genedlaethol. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod deddfwriaeth yn gymesur, yn briodol, yn adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu'r sector ac yn bodloni disgwyliadau defnyddwyr.

Parhau i arloesi yn ein hagwedd at reoleiddio

- 3.15 Byddwn yn parhau i addasu ac arloesi yn wyneb y newidiadau i reoleiddio a pholisi. Byddwn yn gwreiddio ein dyletswyddau newydd parthed seiberddiogelwch yn ein rhaglen waith. Byddwn hefyd yn cyfrannu at y ddadl am y posibilrwydd o reoleiddio cynnwys niweidiol ar-lein, gan ddarparu ymchwil a gwneud gwaith dan ein dyletswyddau presennol mewn perthynas â llythrennedd yn y cyfryngau. Byddwn yn parhau i gynghori'r Llywodraeth pan fydd unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn cael ei chyflwyno yn y maes hwn. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar oblygiadau'r symud tuag at gyflwyno gwasanaethau cyfathrebu ar-lein. Er enghraifft, byddwn yn parhau i edrych ar y ffordd orau o gynnal amlygrwydd gwasanaethau a chynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar-lein.
- 3.16 Mae Ofcom yn aml yn cydweithio â rheoleiddwyr eraill. Un ffordd a wnawn hyn yw drwy Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU.¹⁹ 1.1 Mae'r cydweithredu yma yn helpu i rannu arferion gorau mewn meysydd fel rheoleiddio economaidd, cystadleuaeth a pholisi defnyddwyr. Er enghraifft, byddwn yn cyfrannu at waith polisi ar y cyd i wella canlyniadau i ddefnyddwyr bregus. Mae Ofcom wedi ymrwmo i ddarparu adnoddau i Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU.
- 3.17 Byddwn yn ceisio arloesi a gwella ein gwasanaethau ni ein hunain er mwyn gallu ymateb i dechnolegau newydd. Yn 2019/20, byddwn yn rhoi dull gweithredu ar waith i alluogi Ofcom i wneud defnydd gwell o'r broses dadansoddi data. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi ac fe fydd y data sydd gennym yn haws ei ddefnyddio ac yn fwy hygyrch. Byddwn yn gwella ein sgiliau a'n dealltwriaeth yn y maes dadansoddi data ac yn gwella ein hoffer a'n prosesau.

¹⁹ Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU: <http://www.ukrn.org.uk/>

4. Gwaith parhaus i gyflawni ein nodau a'n dyletswyddau

- 4.1 Yn Adran 3 rydym wedi tynnu sylw at feysydd gwaith allweddol a fydd yn ein helpu i gyflawni ein nodau yn 2019/20. Mae ein rhaglen ehangach o waith parhaus, sy'n cael ei grynhoi yn yr adran hon, yr un mor bwysig ar gyfer cyflawni'r nodau hyn.
- 4.2 Mae llawer o raglen waith barhaus Ofcom yn orfodol, ac wedi'i phennu mewn deddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys monitro'r BBC, gorfodi safonau rheoleiddio a monitro'r sbectrum radio am ymyriant. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cynnal gwaith dewisol i sicrhau ein bod ni mewn sefyllfa dda i helpu i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.

Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr

- 4.3 **Dyrannu a rheoli rhifau ffôn.** Mae Ofcom yn dyrannu rhifau ffôn i ddarparwyr cyfathrebiadau, sydd wedyn yn eu rhoi i ddefnyddwyr. Rydym yn sicrhau bod rhifau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, gan leihau ymyriant a chost.
- 4.4 Byddwn yn ymchwilio i'r defnydd o gronfa ddata gyffredin a chanolog o rifau (neu fathau eraill o dechnoleg) y gellid ei defnyddio i gefnogi'r gwaith o reoli rhifau, dilysu galwadau a symud/cludo rhifau yn y dyfodol. Un agwedd ar y gwaith hwn yw prosiect ar y cyd, gyda chyllid o'r Gronfa Arloesi ar gyfer Rheoleiddwyr, i edrych ar y defnydd o dechnoleg cadwyn atal arloesol i brofi dull newydd ar gyfer rheoli rhifau ar gyfer y dyfodol.
- 4.5 **Monitro'r farchnad bost a pherfformiad y Post Brenhinol.** Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y Post Brenhinol ym meysydd effeithlonrwydd ac ansawdd gwasanaeth, perfformiad ariannol y rhwydwaith gwasanaeth cyffredinol, a chystadleuaeth ym maes parseli a llythyrau. Byddwn hefyd yn monitro profiadau defnyddwyr yn y sector post. Yn ogystal, byddwn yn cwblhau ein gwaith o adolygu adroddiadau ariannol rheoleiddiol y Post Brenhinol a modelau cost ei rwydwaith dosbarthu. Bwriadwn gyhoeddi adroddiad yn Ch3.
- 4.6 **Monitro teledu drwy dalu.** Mae Ofcom yn olrhain datblygiadau yn y farchnad ar draws y farchnad teledu drwy dalu er mwyn deall profiad defnyddwyr a chystadleuaeth wrth i'r sector esblygu. Byddwn yn parhau i fonitro unrhyw bryderon mewn perthynas â mynediad at gynnwys teledu drwy dalu (gan gynnwys cyflenwi cynnwys chwaraeon premiwm) a llwyfannau teledu, gan ein galluogi i gamu i mewn yn gyflym pan fydd angen.
- 4.7 **Dyfodol data defnyddwyr.** Rydym yn gweithio i sicrhau bod gan ddefnyddwyr yr wybodaeth iawn am y gwasanaethau sydd ar gael, cyflymderau a'u defnydd eu hunain o wasanaethau cyfathrebu er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau gwybodus am y cynnyrch a'r gwasanaethau sydd fwyaf addas i'w hanghenion nhw. Byddwn yn ystyried sut i weithredu hyn yn ein sectorau a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gyflawni hyn.

Sicrhau safonau a gwella ansawdd

Cynnwys radio a theledu a ddarlledir

- 4.8 **Rhaglenni PSB.** Byddwn yn cwmpasu ein rhaglen waith i gynnal a chryfhau'r system PSB, gan gynnwys dyletswyddau sy'n ymwneud â'r adolygiad nesaf o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB).
- 4.9 **Monitro'r BBC.** I ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol ac i asesu perfformiad y BBC yn erbyn ei ofynion, rydym yn monitro gweithgareddau'r BBC a'r newidiadau arfaethedig i'w weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a masnachol, gan gynnwys drwy ystyried cwynion ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- 4.10 **Gorfodi gofynion ar gyfer gwasanaethau mynediad.** Rydym yn sicrhau bod darlledwyr yn darparu cyfran o'u rhaglenni gyda gwasanaethau mynediad (isdeitlau, arwyddo a disgrifiadau sain) ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg neu ar eu clyw. Rydym yn darparu adroddiad bob chwe mis ar sianeli darlledu ac ar wasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS). Rydym yn gweithio gyda'r Llywodraeth i gyflwyno rheoliadau ar hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw. Rydym yn parhau i weithio gyda darlledwyr a darparwyr ODPS i fynd i'r afael â materion eraill megis ansawdd a hwylustod gwasanaethau mynediad.
- 4.11 **Gorfodi safonau rhaglenni.** Rydym yn sicrhau bod rhaglenni a ddarlledir ar y teledu ac ar y radio yn bodloni safonau'r Cod Darlledu. Mae'r rhain yn cynnwys rheolau am niwed a thramgwydd, trosedd, crefydd, cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy, tegwch a phreifatrwydd a chyfeiriadau masnachol. Rydym yn asesu cwynion gan wrandawyr a gwylwyr. Ar ben hynny rydym yn chwilio am achosion o dorri ein rheolau, ac yn canfod achosion o'r fath, a hynny drwy fonitro parhaus wedi'i dargedu. Os yw'r achosion yn ddifrifol neu'n digwydd dro ar ôl tro, gallwn osod sancsiwn statudol ar y darlledwr sy'n gallu cynnwys cosb ariannol ac, yn yr achosion mwyaf difrifol, gallwn ddiddymu ei drwydded i ddarlledu.
- 4.12 Mewn perthynas â'r BBC, rydym yn rheoleiddio cynnwys ar sianeli teledu, gorsafoedd radio, iPlayer a gwefan y BBC. Mae Ofcom yn ystyried cwynion sy'n cael eu cyfeirio atom ni os nad yw'r sawl sy'n cwyno yn fodlon â'r ffordd mae'r BBC wedi datrys y gŵyn, ond gallwn hefyd gamu i mewn yn gynharach os bydd raid. Ar gyfer deunydd ar-lein ar wefan ac apiau'r BBC, gellir cyfeirio cwynion at Ofcom i gael ei farn.
- 4.13 Rydym hefyd yn rheoleiddio gwasanaethau fideo ar-alw sydd wedi'u sefydlu yn y DU. Rhaid i'r rhain fodloni cyfres o safonau golygyddol sy'n ymdrin â diogelu plant, casineb ar lafar a chyfeiriadau masnachol.
- 4.14 Mae disgwyliadau cynulleidfaoedd mewn perthynas â safonau ar wasanaethau darlledu ac ar-alw yn esblygu dros amser. Bydd ymchwil ar ddisgwyliadau ar gyfer safonau ar draws gwahanol lwyfannau yn sicrhau ein bod yn mynd ati'n briodol ac yn gymesur i ddefnyddio rheolau sy'n adlewyrchu disgwyliadau cynulleidfaoedd ac ymddygiadau gwyllo sy'n newid.
- 4.15 **Digwyddiadau rhestredig.** Byddwn yn diweddarau'r rhestr o sianeli a all ddangos digwyddiadau chwaraeon mawr a digwyddiadau eraill o ddiddordeb cenedlaethol, gan

ystyried y ffyrdd gwahanol a ddefnyddir gan wylwyr i wyllo'r teledu. Bwriadwn gyhoeddi datganiad yn Ch1.

- 4.16 **Trwyddedu gwasanaethau darlledu teledu a radio.** Rydym yn rhoi trwyddedau ar gyfer holl wasanaethau teledu masnachol lleol a chenedlaethol y DU, a'r holl wasanaethau radio cymunedol, masnachol, digidol ac analog. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod ystod ac amrywiaeth o wasanaethau ar gael ledled y DU. Mae Ofcom yn gallu rhoi cosbau pan na fydd cwmnïau'n cydymffurfio â gofynion trwydded ac, mewn achosion difrifol, gall ddiddymu trwyddedau.

Rheoli'r sbectrwm radio

- 4.17 **Dadansoddi a rhyddhau gwybodaeth am y defnydd o sbectrwm.** Rydym yn rhyddhau gwybodaeth am sbectrwm mewn fformat agored, gan gynnwys mapiau sbectrwm daearyddol rhyngweithiol, er mwyn i randdeiliaid ddeall yn well sut mae sbectrwm yn cael ei ddefnyddio.
- 4.18 **Awdurdodi'r defnydd o sbectrwm.** Mae Ofcom yn cynghori ac yn helpu defnyddwyr sbectrwm i wneud defnydd effeithlon o sbectrwm y DU ac i helpu i ddatrys ymyriant niweidiol. Mae ein Timau Technoleg, Peirianeg a Gorfodaeth yn y maes Sbectrwm yn delio ag adroddiadau o ymyriant ac yn cynnal gweithgareddau i ddiogelu a rheoli'r sbectrwm. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiadau technegol, trwyddedu a chydlynu'r defnydd o sbectrwm ac ymchwilio i achosion o ymyriant (gan gynnwys cyfathrebiadau diogelu bywyd). Rydym yn atal defnydd diawdurdod o sbectrwm drwy ganfod a mynd i'r afael ag achosion o ddefnyddio sbectrwm heb drwydded gan gynnwys gwerthu neu ddefnyddio offer nad yw'n cydymffurfio. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth o ofynion Cyfarwyddeb Offer Radio'r Llywodraeth, ac yn llunio strategaethau i orfodi ei darpariaethau.
- 4.19 **Rheoli sbectrwm a chynllunio ar gyfer gofynion y dyfodol.** Mae Ofcom yn sicrhau bod sbectrwm radio'r DU yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon. Mae hyn yn cynnwys cynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm yn y dyfodol, er enghraifft ar gyfer data symudol ac ôl-gludo di-wifr sefydlog. Byddwn yn dadansoddi'r defnydd o sbectrwm ar draws sectorau penodol i gefnogi ein hadolygiadau strategol a bod yn sail i'n polisi.

Diogelwch, perfformiad ac ansawdd rhwydweithiau

- 4.20 **Monitro ansawdd gwasanaethau telegyfathrebiadau cyfanwerthol.** Bydd Ofcom yn parhau i fonitro'r gwasanaethau telegyfathrebiadau cyfanwerthol ffeibr a chopr sy'n cael eu darparu a'r gwaith o'u hatgyweirio. Bydd hyn yn sicrhau y cydymffurfir â'r amodau sy'n cael eu gosod yn sgil ein hadolygiadau o'r farchnad.
- 4.21 **Sicrhau bod gweithredwyr rhwydweithiau yn cydymffurfio â'r canllawiau ar ddiogelwch a chadernid.** Mae Ofcom yn meithrin y gallu i sicrhau bod risgiau i ddiogelwch yn cael eu rheoli a bod lefelau priodol o gadernid yn cael eu cyflawni gan ddarparwyr cyfathrebiadau.
- 4.22 Byddwn yn rhoi Rheoliadau'r Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS) ar waith. Mae'r rhain yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol ar ddarparwyr i ddiogelu gwasanaethau

hanfodol y DU. Mae DCMS yn cwblhau dau beilot a gynhaliwyd ganddynt mewn perthynas â'r cynllun 'TBEST' - cynllun profion hacio ar sail gwybodaeth am fygythiadau sy'n asesu sut mae cwmni'n gwrthsefyll ymosodiad seiliedig ar y technegau y gwyddom fod seiberdroseddwyr a gwledydd gelyniaethus yn eu defnyddio. Unwaith y bydd y rhain wedi'u cwblhau, byddwn yn lansio ein cynllun TBEST yn gynnar yn 2019. Hefyd, rydym yn bwriadu lansio fframwaith asesu cydymffurfio â diogelwch yn gynnar yn 2019.

- 4.23 **Cyhoeddi ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd.** Byddwn yn parhau i ddarparu gwybodaeth am argaeledd a chyflymderau rhwydweithiau symudol a band eang sefydlog cyflym iawn a gwibgyswllt. Bydd y data yn cael eu cyhoeddi yn ein Hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol, ein diweddariadau cyfnodol i'r adroddiad, a'r apiau symudol a'r adnoddau gweledol sy'n cyd-fynd â'r adroddiad. Byddwn yn adrodd ar wasanaeth band eang cyffredinol ac ar ba mor ddiogel a chadarn yw gwasanaethau cyfathrebiadau. Bwriadwn gyhoeddi diweddariadau yn ystod y gwanwyn a'r haf, a'r prif adroddiad yn Ch3. Byddwn yn gweithio i wneud ein gwybodaeth yn fwy perthnasol a defnyddiol i ddefnyddwyr.

Diogelu defnyddwyr rhag niwed

- 4.24 **Galwadau Niwsans.** I helpu i leihau galwadau niwsans, rydym yn gweithio gyda darparwyr cyfathrebiadau'r DU i amharu arnynt a'u hatal. Rydym hefyd yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau gorfodi eraill fel Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a chyrrff sy'n gofalu am fuddiannau defnyddwyr. Yn ddiweddar hefyd rydym wedi cryfhau'r gofynion ar ddarparwyr mewn perthynas â'r gwasanaeth adnabod y galwr (CLI), y broses sy'n gadael i'r sawl sy'n cael yr alwad weld pwy sy'n galw.
- 4.25 **Defnyddwyr bregus.** Rydym yn cefnogi ac yn diogelu anghenion defnyddwyr y mae eu hamgylchiadau'n eu gwneud yn fwy bregus. Rydym yn monitro effaith ein Hamod Cyffredinol ar fregusrwydd (AC C5) ac yn nodi enghreifftiau o arfer gorau. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda UKRN a rheoleiddwyr eraill i ddarparu rhaglen waith sy'n edrych ar safonau sylfaenol i gefnogi cwsmeriaid sydd â salwch meddwl, namau gwybyddol a dementia ac ar arferion gorau ar gyfer cefnogi defnyddwyr bregus.
- 4.26 **Cryfhau llais y defnyddiwr yn y maes cyfathrebiadau.** O fis Ebrill ymlaen, byddwn yn cryfhau'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebu, y corff defnyddwyr annibynnol ar gyfer y sector telegyfathrebiadau, i eiriol ar ran defnyddwyr gyda llais cryfach.
- 4.27 **Cymharu ansawdd gwasanaethau.** Mae adroddiad blynyddol Ofcom, Cymharu Ansawdd Gwasanaethau, yn rhoi metrigau mae modd eu cymharu ynghylch ansawdd gwasanaeth darparwyr cyfathrebiadau i ddefnyddwyr a'r diwydiant. Byddwn yn monitro sut mae darparwyr yn gweithredu'r cynllun iawndal awtomatig am fethiannau mewn gwasanaeth. Byddwn yn parhau i gynhyrchu cyhoeddiadau chwarterol ar gwynion a dderbyniodd Ofcom yn erbyn y darparwyr teledu-drwy-dalu a thelegyfathrebiadau mwyaf.
- 4.28 **Mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngwyd (VoIP).** Wrth i wasanaethau ffeibr gael eu cyflwyno ac wrth i ddarparwyr cyfathrebiadau ddatblygu cynlluniau i roi'r gorau i'r Rhwydwaith Ffôn Cyfnewidfa Gyhoeddus (PSTN), bydd defnyddwyr yn symud fwyfwy i wasanaethau protocol llais dros y rhyngwyd. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr i helpu i

sicrhau bod problemau sy'n codi oherwydd y mudo yma yn cael eu pennu ac yn cael sylw er mwyn diogelu defnyddwyr rhag niwed a lleihau ymyrraeth i'r eithaf.

Gwaith arall ar draws ein nodau

- 4.29 I helpu i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb, mae gennym feysydd gwaith parhaus sy'n rhychwantu ein tri nod strategol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gorfodi amodau rheoleiddio, datblygu ein hymchwil a'n gwybodaeth am y farchnad, deall datblygiadau yn y farchnad, a meithrin perthnasoedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Gorfodi

- 4.30 **Gorfodi rheoleiddiol.** Rydym yn gorfodi'r amodau rheoleiddio rydym yn eu gosod ar ddarparwyr cyfathrebiadau, yn ogystal â chyfraith defnyddwyr a chystadleuaeth gyffredinol. Rydym yn monitro cwynion, yn dadansoddi tystiolaeth ac yn gweithredu lle gwelwn niwed, gan gynnwys agor rhaglenni gorfodi ac ymchwiliadau ffurfiol, cyflwyno cosbau a cheisio iawn lle bo'n briodol. Dros y flwyddyn i ddod, bydd y prif flaenoriaethau'n cynnwys monitro a gorfodi'r rheolau sy'n ymwneud â'r canlynol:
- mynd i'r afael â galwadau niwsans;
 - diogelu defnyddwyr bregus a defnyddwyr ag anableddau;
 - y gofyniad i gynnig contractau gyda thelerau sylfaenol (gan gynnwys ffioedd terfynu'n gynnar); a
 - y mesurau sydd gan ddarparwyr cyfathrebiadau yn eu lle i amddiffyn cadernid a diogelwch eu rhwydweithiau.
- 4.31 **Diwygio Openreach yn effeithiol.** Rydym yn monitro cynnydd yn dilyn gwahanu Openreach a BT yn gyfreithiol ac yn darparu adroddiad yn flynyddol ar sut mae BT ac Openreach yn cydymffurfio â'u hymrwymadau newydd. Rydym yn credu y bydd i ba raddau y mae'r model newydd yn llwyddo ar gyfer defnyddwyr a busnesau yn dod yn amlwg cyn pen tair blynedd ar ôl ei roi ar waith. Felly, rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad ar y canlyniadau cyffredinol yn 2020/21 a fydd yn asesu effeithiolrwydd y camau a gymerwyd: i roi budd i ddefnyddwyr, i fynd i'r afael â'n pryderon am gystadleuaeth ac i annog buddsoddiad newydd mewn rhwydweithiau.
- 4.32 **Monitro a gorfodi siarter y BBC.** Lle bo'n briodol, byddwn yn gorfodi gofynion sy'n ymwneud â chystadleuaeth sy'n berthnasol i'r BBC o dan ei Siarter a'i Gytundeb, ac o dan y Fframwaith Gweithredu a osodwyd gan Ofcom.
- 4.33 **Gwella cydymffurfiaid gan rhanddeiliaid wrth ymateb i geisiadau ffurfiol am wybodaeth.** Ein nod yw gwella cydymffurfiaid rhanddeiliaid wrth ymateb i'n ceisiadau ffurfiol am wybodaeth dan bwerau statudol. Rydym wedi cyhoeddi ymchwiliadau i ba mor amserol, cyflawn a chywir yw ymatebion a dderbyniwyd i'n ceisiadau statudol am wybodaeth.

Strategaeth i'r dyfodol

- 4.34 **Ymchwil i'r farchnad a gwybodaeth am y farchnad.** Rydym yn cynnal ymchwil i farchnadoedd cyfathrebiadau ac ymddygiad defnyddwyr a beth sydd orau ganddynt. Mae hwn yn rhoi darlun trwyadl a chyfredol o ddefnyddwyr yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio. Rydym yn casglu data'n uniongyrchol oddi wrth randdeiliaid yn y diwydiant ac yn ei darparu drwy gyhoeddiadau a'n gwefan.
- 4.35 **Llythrennedd yn y cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar y defnydd o gyfryngau, agweddau at y cyfryngau a dealltwriaeth oedolion a phlant ohonynt.
- 4.36 **Monitro a dadansoddi datblygiadau technegol a masnachol er mwyn paratoi at y dyfodol.** Rydym yn monitro datblygiadau technegol, newidiadau yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, a newidiadau yn nisgwyliaid ac ymddygiad defnyddwyr. Mae hyn yn cyfrannu at ein gwaith polisi a'n penderfyniadau ac yn ein helpu i ragweld ac ymateb i ddatblygiadau perthnasol.

Ymgysylltu allanol

- 4.37 **Gweithio gyda Llywodraeth y DU, llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig, a chyrrff eraill, i ddiogelu cynulleidfaoedd.** Rydym yn ymgysylltu â llywodraethau, diwydiant a chyrrff eraill i ddiogelu cynulleidfaoedd, ar draws amgylcheddau traddodiadol ac ar-lein. Rydym yn eistedd ar Gyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngwrld (UKCIS) ac yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill ar draws Ewrop, drwy'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (ERGA), i wella'r amddiffyniad ar gyfer gwasanaethau clyweledol.
- 4.38 **Gweithio gyda Llywodraeth y DU, llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig, a chyrrff eraill, ar seilwaith rhwydweithiau.** Rydym yn ymgysylltu â llywodraethau a gweinyddiaethau a nifer o gyrff eraill ar draws y DU, gan roi cyngor ar faterion technegol. Rydym yn cynghori Llywodraeth y DU a'r llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig ar faterion argaeledd, er enghraifft drwy ein gwaith gyda Llywodraeth y DU ar ei Hadolygiad o'r Seilwaith Telegyfathrebiadau i'r Dyfodol, neu drwy'r gefnogaeth a ddarparwn ar gyfer gwella'r ddarpariaeth symudol ledled y DU.
- 4.39 **Ymgysylltu â rhanddeiliaid rhyngwladol.** Rydym yn ymgysylltu â nifer o randdeiliaid rhyngwladol ym maes rheoleiddio cyfathrebiadau, i ddysgu o'u profiadau a sicrhau bod syniadau polisi newydd, ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol, yn diwallu anghenion sector cyfathrebiadau'r DU. Byddwn yn cynnal ein cysylltiadau presennol ac yn meithrin rhai newydd gyda rhanddeiliaid yn Ewrop ac yng ngweddill y byd.
- 4.40 Lle bo'n briodol, bydd Ofcom yn parhau i gyfrannu at rwydweithiau rheoleiddio Ewropeaidd, yn ogystal â chynrychioli'r DU, dan gyfarwyddwyd Gweinidogion, ar gyrff rhyngwladol fel yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol (ITU) a Chynhadledd Ewropeaidd y Gweinyddiaethau Post a Thelegyfathrebiadau (CEPT). Mae gennym hefyd raglen weithredol o ymgysylltu amlochrog â rhanddeiliaid a chymheiriaid rheoleiddio yn Ewrop, yr Unol Daleithiau a ledled y byd.

5. Cyflawni ein nodau ledled y DU

- 5.1 Mae gwaith Ofcom yn rheoleiddio gwasanaethau cyfathrebu, post a darlledu yn bwysig i bobl ac i fusnesau ar draws y DU. Mae gwasanaethau cyfathrebu o ansawdd da yn hollbwysig i bobl ac i fusnesau lle bynnag y maent. Mae'r adran hon yn disgrifio ein gwaith ar gyfer y flwyddyn nesaf sy'n gyffredin i bob gwlad, ynghyd â gwaith penodol yn y gwledydd unigol.
- 5.2 Rydym yn ymrwymedig i gyflawni ar ran pobl ar draws holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Rydym yn ystyried amrywiaeth genedlaethol a rhanbarthol drwy ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid ym mhob gwlad drwy ein swyddfeydd cenedlaethol, a drwy weithio'n agos gyda phedwar Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol Ofcom. Mae'r rhain yn cynrychioli buddiannau a safbwyntiau pobl ym mhedair gwlad y DU.
- 5.3 Mae datblygiadau diweddar mewn perthynas â datganoli wedi golygu newidiadau i drefn llywodraethu Ofcom. Mae'r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth rhwng y gweinyddiaethau datganoledig, yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Ofcom yn nodi proses Ofcom ar gyfer ymgynghori â'r deddfwrfeydd a'r llywodraethau datganoledig ynghylch ein Cynllun Blynyddol, pa mor aml mae Ofcom yn ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig, a dyletswydd Ofcom i ddarparu tystiolaeth i Bwyllgorau Seneddol a Phwyllgorau Cynulladau. Mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ar gael ar hyn o bryd rhwng Ofcom a Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban,²⁰ a rhwng Ofcom a Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.²¹ Disgwylir y bydd cytundeb am femorandwm cyd-ddealltwriaeth tebyg gyda'r weinyddiaeth yng Ngogledd Iwerddon maes o law.
- 5.4 Mae'r gweinyddiaethau yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast bellach yn gyfrifol am benodi aelod newydd i Fwrdd Ofcom, a hynny mewn ymgynghoriad â'r Ysgrifennydd Gwladol dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ym mis Chwefror 2018, penododd Llywodraeth yr Alban Bob Downes yn Aelod Bwrdd cyntaf Ofcom ar ran yr Alban. Mae'r gwaith o recriwtio aelod ar ran Cymru i fwrdd Ofcom ar y gweill, a disgwylir y bydd yr aelod ar ran Gogledd Iwerddon yn cael ei benodi pan fydd y llywodraeth ddatganoledig yn cael ei hadfer. Mae'r aelodau hyn o'r Bwrdd yn rhoi mewnbyn uniongyrchol i flaenoriaethau a gwaith Ofcom, gan sicrhau y gallwn gyflawni ein nodau ledled y DU.

Heriau cyffredin

- 5.5 Mae darparu gwasanaethau band eang sefydlog, symudol a phost sy'n diwallu anghenion defnyddwyr a busnesau mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn peri heriau penodol.

²⁰ Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Senedd yr Alban a'r Swyddfa Gyfathrebiadau, Ebrill 2017 : <https://www.gov.uk/government/publications/memorandum-of-understanding-between-the-uk-government-scottish-government-scottish-parliament-and-the-office-of-communications>

²¹ Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cymru a'r Swyddfa Gyfathrebiadau, Gorffennaf 2018: <https://www.gov.uk/government/publications/memorandum-of-understanding-between-the-uk-government-welsh-government-welsh-assembly-and-the-office-of-communications>

Mae'r ardaloedd hyn wedi'u lleoli yn anghymesur yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ond mae heriau tebyg yn effeithio ar rai o ranbarthau Lloegr hefyd. Dylai gwasanaethau darlledu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol hefyd ddiwallu anghenion, ac adlewyrchu amrywiaeth, cynulleidfaoedd ar draws rhanbarthau a gwledydd y DU. Rydym ar hyn o bryd mewn cyfnod o newid a fydd yn cael effaith ar holl wledydd y DU, gyda thrafodaethau mawr yn digwydd am ddyfodol rheoleiddio ar-lein, datblygiadau ym maes seibr-reoliadau, a chwestiynau sy'n codi ar effaith gadael yr UE.

5.6 Yn 2019/20, byddwn yn:

- Cyhoeddi ein hadroddiad **Cysylltu'r Gwledydd**, a diweddariadau, ar y ddarpariaeth symudol a band eang a'u cyflymderau, gan gynnwys amrywiadau rhwng defnyddwyr gwledig a dinesig ac mewn gwahanol rannau o'r DU. Bydd yr wybodaeth hon ar gael i ddefnyddwyr drwy apiau ac offer i annog y defnydd ohonynt ac i annog pobl i wneud dewisiadau gwybodus.
- Cymryd camau i **wella'r ddarpariaeth symudol** drwy rwymedigaethau trwydded arfaethedig sy'n gysylltiedig â dyfarnu'r bandiau sbectrum 700 MHz. Byddwn hefyd yn edrych ar nifer o opsiynau polisi eraill a thechnolegau newydd i wella'r ddarpariaeth symudol, mewn ardaloedd gwledig yn arbennig.
- Bwrw ymlaen â'r prosiect **rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang (USO)**. Mae canran uwch o bobl yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn methu cael gwasanaeth band eang teilwng. Bwriadwn gyhoeddi datganiad yn Ch1.
- Cyhoeddi datganiad ar yr arweiniad i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mewn perthynas â chyflawni amodau'u trwydded ar gyfer rhaglenni **sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain** ac yn y gwledydd.
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol cyntaf Ofcom ar **berfformiad y BBC** yn erbyn y gofynion yn ei Drwydded Weithredu, gan gynnwys y gofynion i'r BBC eu cyflawni ym mhob un o wledydd y DU.
- Parhau i fonitro ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar fater **codi tâl ychwanegol am barseili** yng Ngogledd Iwerddon, Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban, a rhannau eraill o'r DU.
- **Hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y maes darlledu** drwy gyhoeddi adroddiadau ar y diwydiannau teledu a radio a'u perfformiad yn ceisio cyflawni targedau 2020 ar gyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant mewn cyflogaeth.
- Cyfrannu at y ddadl ar **ddyfodol rheoleiddio ar-lein** a rhoi cyngor i wneuthurwyr polisi. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol cyntaf yn disgrifio'r tueddiadau yn y sector ar-lein ac yn asesu sut mae pobl yn cael eu gwasanaethu gan apiau a

chynnwys ar-lein. Byddwn hefyd yn cynnal ymchwil i safbwyntiau a disgwyliadau cynulleidfaoedd am safonau ar draws y teledu, radio, ar-alw ac ar-lein.

- Meithrin y gallu i **sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau'n rheoli risgiau diogelwch ac yn sicrhau lefelau priodol o gadernid**. Byddwn yn rhoi gofynion dan Reoliadau'r Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS) ar waith. Mae'r rhain yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol ar ddarparwyr i ddiogelu gwasanaethau hanfodol y DU. Mae DCMS yn cwblhau dau beilot a gynhaliwyd ganddynt mewn perthynas â'r cynllun 'TBEST' - cynllun profion hacio ar sail gwybodaeth am fygythiadau sy'n asesu sut mae cwmni'n gwrthsefyll ymosodiad seiliedig ar y technegau y gwyddom fod seiberdroseddwyr a gwledydd gelyniaethus yn eu defnyddio. Unwaith y bydd y rhain wedi'u cwblhau, byddwn yn lansio ein cynllun TBEST yn gynnar yn 2019. Hefyd, rydym yn bwriadu lansio fframwaith asesu cydymffurfio â diogelwch yn gynnar yn 2019.
- Lle bo hynny'n briodol ac yn angenrheidiol, **gweithio gyda Llywodraeth y DU i drosi deddfwriaeth Ewropeaidd berthnasol yn gyfraith genedlaethol**. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod deddfwriaeth yn gymesur, yn briodol, ac yn adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu'r sector ac yn bodloni disgwyliadau defnyddwyr.

Lloegr

- 5.7 Mae gan Loegr amrywiaeth eang o gymunedau a'n nod yw sicrhau bod ein gwaith llunio polisïau yn ystyried buddiannau pob cymuned yn Lloegr. Bydd rhai materion yn parhau'n bwysig, o ddarpariaeth symudol a'r rhwymedigaeth ar gyfer gwasanaeth cyffredinol band eang i amrywiaeth darlledwyr ar y sgrin ac oddi ar y sgrin. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU, ASau lleol ac awdurdodau lleol ledled Lloegr, yn ogystal â chyfrannu at grwpiau fel y Bwrdd Buddsoddi mewn Ffibr Llawn Lleol.

Gogledd Iwerddon

- 5.8 Wrth i'r DU adael yr UE, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n cymheiriaid yng Ngweriniaeth Iwerddon, ComReg ac Awdurdod Darlledu Iwerddon er mwyn cydlynu a chynnal gwasanaethau darlledu a thelegyfathrebiadau trawsffiniol.
- 5.9 Byddwn yn cynnig cyngor rheoleiddiol a thechnegol, yn arbennig i gefnogi Prosiect Stratum²² a'r ddarpariaeth symudol, i adrannau Llywodraeth Gogledd Iwerddon ac i gynghorau lleol yno.

²² Y prosiect hwn yw'r buddsoddiad cyhoeddus arfaethedig o £150m mewn band eang fel rhan o'r cytundeb Hyder a Chyflenwi rhwng y Ceidwadwyr a'r DUP.

Yr Alban

- 5.10 Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban, Pwyllgorau ac Aelodau Senedd yr Alban yn ogystal â Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol yr Alban i gyflawni ein rhaglen waith ar gyfer 2019/20. Byddwn yn parhau i ddarparu cyngor technegol a data perthnasol lle bo'n briodol, er enghraifft, helpu i sicrhau rhyngweithio didrafferth rhwng rhaglen 'Reaching 100%' Llywodraeth yr Alban a'r USO band eang, a darparu data am y ddarpariaeth symudol a fydd yn cyfrannu at Raglen 'Mobile Infill' 4G Llywodraeth yr Alban.
- 5.11 Byddwn hefyd yn cefnogi ein rhwydwaith rhanddeiliaid ehangach yn yr Alban yn ein rôl fel Ysgrifenyddiaeth Grŵp Trawsbleidiol Senedd yr Alban ar Gyfranogiad Digidol. Mae Ofcom hefyd wedi datblygu canolfan weithrediadau a pholisi yn yr Alban i helpu i sicrhau y gallwn ymgynghori'n effeithiol â rhanddeiliaid, gan gynnwys diwydiant, a chynrychioli buddiannau bobl, nid dim ond yn yr Alban, ond ar faterion sy'n berthnasol i'r DU drwyddi draw.
- 5.12 Fel rhan o'n cyfrifoldebau dros adolygu perfformiad y BBC, byddwn yn monitro'r sianel BBC Scotland newydd i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion Trwydded Weithredu'r BBC. Byddwn hefyd yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol mewn perthynas â MG ALBA,²³ er enghraifft yng nghyswllt unrhyw benodiadau i Fwrdd MG ALBA a sicrhau y ceir ymatebion amserol i unrhyw newidiadau gweithredol sy'n cefnogi'u hamcan strategol o sicrhau bod rhaglenni teledu o safon uchel mewn Gaeleg yn cael eu darparu i bobl yn yr Alban.

Cymru

- 5.13 Byddwn yn cydweithredu gyda Llywodraeth Cymru i helpu i wella cysylltedd symudol data a llais i lefelau sy'n cyfateb i'r cyfartaledd yn y DU. Byddwn hefyd yn cynghori sefydliadau a chymunedau ledled Cymru sy'n gweithio i wella'r ddarpariaeth.
- 5.14 Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio â phartïon sydd â diddordeb fel y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol arfaethedig a'r Grŵp Cynghori ar 5G sydd newydd ei sefydlu i helpu Cymru i fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno technoleg 5G.
- 5.15 Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i ddod â gwasanaethau band eang cyflymach i adeiladau yng Nghymru nad ydynt ar gael iddynt ar hyn o bryd.
- 5.16 Byddwn yn gweithio gyda busnesau, sefydliadau a rhanddeiliaid eraill i roi sylw i anghenion cyfathrebu busnesau bach a chanolig Cymru.
- 5.17 Byddwn yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i hyrwyddo'r Gymraeg mewn ffordd arloesol a phwrpasol, gan annog pobl i gysylltu ag Ofcom yn eu dewis iaith, boed honno'n Gymraeg neu Saesneg, gan gynnal ein henw da yn rhoi Safonau'r Gymraeg ar ein cyfer ar waith.

²³ MG ALBA ydy'r Gwasanaeth Cyfryngau Gaeleg

6. Sicrhau gwerth am arian

Byddwn yn parhau i ddarparu arbedion effeithlonrwydd ac arbedion arian

- 6.1 Ers dechrau Adolygiad o Wariant 2015 Llywodraeth y DU, rydym yn dal yn ymrwymedig i sicrhau arbedion termau real sy'n gyson â'r sector cyhoeddus, yn ogystal â'n hymgyrch ni i fod yn rheoleiddiwr effeithlon ac effeithiol ar gyfer sector cyfathrebiadau sy'n symud yn gyflym.
- 6.2 Dros y cyfnod hwn, ar sail gyfatebol (like-for-like), mae ein cyllideb wedi aros yn wastad mewn termau arian (£115.7m), a dim ond wedi'i haddasu ar gyfer dyletswyddau ychwanegol parthed yr USO a'r gwaith yn rheoleiddio'r BBC. Mewn termau real, mae hyn yn 7% o ostyngiad. Mae Ofcom yn parhau i sicrhau arbedion cyllidebol cyfatebol mewn termau real a bydd yn parhau i wella effeithlonrwydd lle y gallwn.

Cap gwariant ar gyfer 2019/20

- 6.3 Rydym wedi cytuno ar derfyn gwario o £124.2m gyda'r DCMS a'r Trysorlys ar gyfer 2019/20, sy'n cynnwys capasiti ar gyfer ein cyfrifoldebau yn rheoleiddio'r BBC, gwaith ar y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang a seiberddiogelwch. Mae hyn yn arbediad effeithlonrwydd gwirioneddol o 2% o'i gymharu â 2018/19. Byddwn yn cadarnhau ein cyllideb yn fersiwn derfynol y Cynllun Blynyddol.
- 6.4 Mae ein costau'n cael eu dyrannu i sectorau rhanddeiliaid a bydd y rhaniad yn cael ei gyhoeddi yn ein Tablau Tariff, ochr yn ochr â'r Cynllun Blynyddol terfynol. Mae'r cynllun gwaith yn cael ei adlewyrchu yn y tariffau rydym wedi'u gosod, a does dim newid wedi bod yn y dull rydym wedi'i ddefnyddio i gyfrifo'r costau hyn.

Sut byddwn yn rheoli ein hadnoddau yn 2019/20

- 6.5 Mae adolygu'n barhaus y ffordd rydym yn gweithio yn ein helpu i weithredu'n effeithiol ac effeithlon. Pan mae adnoddau'n gyfyngedig, byddwn yn gwneud dewisiadau, a'r rheini'n cael eu llywio gan ein nodau a'n dyletswydd i hyrwyddo buddiannau pobl.
- 6.6 Pwrpas ein hadnoddau a'n sgiliau yw cyflwyno ein cynlluniau a'n dyletswyddau drwy gynllunio strategol a thrwy agwedd integredig at ein cyllidebau a'n rhagolygon. Rydym yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu blaenoriaethau, capasiti a'r galw i sicrhau y gallwn gyflawni ein hamcanion. Rydym hefyd yn parhau i sicrhau'r arbedion gorau posibl drwy ein gwaith masnachol yn cael y pris a'r ansawdd gorau gan ein cyflenwyr.
- 6.7 Drwy wella ein swyddfeydd, rydym wedi gallu creu amgylchedd mwy hyblyg ac ystyryth ar gyfer ein gweithlu ac mae wedi lleihau ein hól troed yn Llundain. Bydd hyn yn y pen draw yn arwain at arbedion o £3m o leiaf y flwyddyn gan ddarparu'r amgylchedd gweithio gorau

posibl. Mae hyn yn awr yn rhoi gweithfan i ni lle mae modd cydweithio'n well ac mae'n gwella ein gallu i ymateb i unrhyw waith adweithiol yn ystod y flwyddyn.

A1. Beth rydym yn ei wneud

- A1.1 Pwrpas Ofcom yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. I gyflawni hyn, mae gennym dri phrif nod:
- hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr;
 - sicrhau safonau a gwella ansawdd; a
 - diogelu defnyddwyr rhag niwed.
- A1.2 Rydym yn rheoleiddio telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, teledu, radio, gwasanaethau fideo ar-alw, y post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Rydym yn helpu unigolion a busnesau yn y DU i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebiadau ac yn eu gwarchod rhag triniaeth ac arferion niweidiol. Lle bo'n briodol, rydym yn cefnogi cystadleuaeth fel sail ar gyfer sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr.
- A1.3 Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar lywodraethau a buddiannau masnachol i gyflawni ein dyletswyddau. Fodd bynnag, rydym yn atebol i'r Senedd ac, i gyflawni ein rôl yn effeithiol, mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethu datganoledig. Rydym yn darparu cyngor technegol i lywodraethau (er enghraifft, ein gwaith yn ymwneud â sefydlu darparwr gwasanaeth cyffredinol band eang yn y DU) ac, mewn rhai achosion, rydym yn gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol Llywodraeth y DU (er enghraifft, mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm).

Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

- A1.4 Sefydlwyd Ofcom dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu'n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol²⁴. Dywed Deddf Cyfathrebiadau 2003 mai ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Gyda gwasanaethau post, ein dyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol yn y DU. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau'n ymwneud â gwarchod defnyddwyr, cyfathrebiadau a chystadleuaeth; mae ein pwerau cystadleuaeth yn cael eu hamlinellu yn nes ymlaen yn yr adran hon.

Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol sy'n tywys cyfeiriad ein gwaith

- A1.5 Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yw:

²⁴ Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddfau'r Economi Ddigidol 2010 a 2017 a Deddf Gwasanaethau Post 2011.

- sicrhau bod gan y DU amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu electronig;
- sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o'r sbectrwm radio;
- sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o ansawdd da yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, gan apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- sicrhau bod pobl yn cael eu gwarchod rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu;
- mae'r BBC yn cael ei ddal i gyfrif am ei gydymffurfiaid â safonau priodol, ei berfformiad yn erbyn ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, ac effaith ei weithgareddau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a
- sicrhau bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y DU.

A1.6 Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond nid oes ganddo'r pŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol ynghylch gwasanaethau post a thelegyfathrebiadau, yn wahanol i'w bwerau gyda theledu a radio. Pan fo'n briodol, rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) yr ydym wedi'u cymeradwyo.

Pwerau Ofcom o dan y gyfraith cystadleuaeth

- A1.7 Yn ogystal â'n cyfrifoldebau rheoleiddio a nodir uchod, mae gennym bwerau yng nghyswllt materion cyfathrebiadau i:
- orfodi gwaharddiadau ar gytundebau gwrthgystadleuol a'r camddefnydd o safle goruchafol, fel y nodir yn Neddf Cystadleuaeth 1998, a'r darpariaethau cyfatebol o dan y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd; ac
 - ymchwilio i farchnadoedd a chyfeirio materion o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA).
- A1.8 Bydd Ofcom yn ystyried a yw'n fwy priodol arfer pwerau'r Ddeddf Cystadleuaeth neu'r pwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar ofynion deddfwriaethol penodol.

A2. Y rhaglen waith ar gyfer 2019/20

A2.1 Isod, rydym yn nodi ein rhaglen waith ar gyfer 2019/20. Rydym yn darparu manylion am y prosiectau sy'n sail i'n meysydd gwaith blaenoriaeth, yn ogystal â'n cynllun gwaith ehangach i gyflawni ein nodau. Ers y Cynllun arfaethedig, rydym wedi ychwanegu sawl prosiect yn dilyn cyhoeddiadau rheoleiddio diweddar, ac rydym hefyd wedi cadarnhau ein prif gyhoeddiadau o ran ymchwil i'r farchnad.

Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol ar ran defnyddwyr

Manylion y Prosiect	Carreg Filltir
Defnyddio rhifau 07: Byddwn yn parhau â'n rhaglen i fynd i'r afael ag anghysondebau yn y defnydd o rifau 07 ac yng nghostau galwadau i'r rhifau hyn.	Y diweddaraf am y statws Ch3 2019/20
Gweithgareddau Masnachu a Masnachol y BBC: Casglu gwybodaeth, monitro sut mae'r BBC yn cydymffurfio â'n gofynion a datblygiadau polisi yng nghyswllt gweithgareddau masnachu a masnachol y BBC.	Parhaus
Adolygu BBC Studios – Ymgynghoriad: Yn dilyn cais am fewnbwn yn Ch4 2018/19, bwriadwn ymgynghori ar faterion sy'n ymwneud â gweithgareddau BBC Studios.	Ymgynghoriad Ch2 2019/20
Dyfodol data defnyddwyr: Rydym am sicrhau bod defnyddwyr yn cael yr wybodaeth iawn i wneud penderfyniadau gwybodus am y cynnyrch a'r gwasanaethau sydd fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion. Rydym yn ystyried y ffordd orau o sicrhau bod data ar gael ar argaeledd, cyflymderau a defnydd pobl eu hunain o wasanaethau cyfathrebiadau.	Parhaus
Adolygiad o ddyfodol polisi rhifo: Byddwn yn cynnal adolygiad strategol o'r cynllun rhifau ffôn i sicrhau ei fod yn darparu beth mae defnyddwyr yn ei ddeall, ei eisiau a'i angen o rifau ar gyfer y degawd nesaf.	Ymgynghoriad Ch3 2019/20
Adroddiadau ariannol rheoleiddiol yn y dyfodol: Byddwn yn ymgynghori ar gynigion i sicrhau bod rhwymedigaethau BT o ran darparu adroddiadau ariannol yn cefnogi ein hamcanion rheoleiddio ehangach.	Ymgynghoriad Ch3 2019/20
Adolygu Terfynu Galwadau a Band Cul: Byddwn yn adolygu'r broses reoleiddio yn y marchnadoedd band cul sefydlog er mwyn hwyluso'r	Ymgynghoriad Ch4 2019/20

gwaith o ddisodli gwasanaethau PSTN gyda VoIP, gan gynnwys unrhyw fesurau gofynnol i ddiogelu defnyddwyr.	
Symud Rhifau: Byddwn yn disgrifio ein cynigion cychwynnol ar gyfer ateb strategol i symud rhifau sefydlog, mynd i'r afael â lefel y methiannau mewn symud rhifau busnes a llwybro galwadau'n annigonol.	Ymgynghoriad Ch1 2019/20
Adolygu'r Farchnad Seilwaith Ffisegol: Byddwn yn cwblhau ein hasesiad cystadleuaeth o'r farchnad ar gyfer seilwaith ffisegol, gyda'r bwriad o gyflwyno mynediad anghyfyngedig at bibellau a pholion.	Datganiad Ch2 2019/20
Paratoi ar gyfer dyfarnu bandiau sbectrwm yn y dyfodol wrth iddynt gael eu clirio a'u rhyddhau: Bydd hyn yn cynnwys dylunio unrhyw arwerthiannau, rhwymedigaethau a mesurau i hyrwyddo cystadleuaeth fel rhan o ddyfarnu trwydded ar gyfer y bandiau 700MHz a 3.6 i 3.8. Hefyd, rydym yn parhau i ddatblygu cynigion ar gyfer rhwymedigaethau trwydded newydd a fyddai'n gofyn am wella'r ddarpariaeth symudol mewn ardaloedd gwledig, yn gysylltiedig â dyfarnu'r band sbectrwm 700 MHz. Datganiad i ddilyn yn unol â'r arwerthiant.	Cyhoeddi datganiad Ch3 2019/20, Ceisiadau i'r Arwerthiant c. Rhagfyr 2019
Adolygu Cydgysylltu: Byddwn yn darparu arweiniad ar sut rydym yn disgwyl rheoleiddio'r broses cydgysylltu a therfynu galwadau mewn dyfodol IP yn unig ac yn ystod y trawsnewid i'r seilwaith IP. Mae'n debyg y bydd unrhyw newidiadau i'r broses reoleiddio yn dod i rym ym mis Ebrill 2021 ar ôl i adolygiad o'r marchnadoedd band cul a therfynu galwadau gael ei gwblhau.	Ymgynghoriad Ch1 2019/20
Adolygu sut mae'r Post Brenhinol yn dyrannu costau: Byddwn yn cwblhau ein hasesiad o'r dull a ddefnyddir gan y Post Brenhinol i ddyrannu costau i'r marchnadoedd gwahanol y mae'n eu gwasanaethu.	Datganiad Ch1 2019/20
Model Costau'r Post Brenhinol: Byddwn yn ymestyn ein gwaith modelu costau 'o'r gwaelod i fyny' ar gyfer rhwydwaith dosbarthu'r Post Brenhinol i gwmpasu rhannau eraill o weithrediadau'r Post Brenhinol. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi'n hasesiad o effeithlonrwydd y Post Brenhinol.	Gweithdai rhanddeiliaid Ch2 2019/20
Adolygu'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Sengl: Byddwn yn ymgynghori ar gynigion ac atebion i'r asesiad o'r farchnad ar gyfer gwasanaethau telegyfathrebiadau sefydlog . Bydd yn delio â chysylltiadau band eang/llais cyfanwerthol a llinellau prydles cyfanwerthol. Byddai unrhyw atebion yn dod i rym ym mis Ebrill 2021.	Ymgynghoriad Ch3 2019/20

<p>Profi dull newydd er mwyn gwella'r broses o reoli rhifau ffôn y DU: Mae symud rhifau yn galluogi defnyddwyr i newid darparwr gwasanaeth a chadw'u rhif presennol, gan feithrin dewis a chystadleuaeth effeithiol heb gost nac anghyfleustra. Ond, does dim cronfa ddata gynhwysfawr yn y DU o'r holl rifau sydd wedi'u dyrannu ac efallai na fydd nifer o'r atebion presennol yn addas i'r dyfodol wrth i rwydweithiau symud i seilwaith IP (Protocol y Rhynggrwyd) yn unig. Dyma brosiect ar y cyd â'r diwydiant ac mae'n defnyddio technoleg cadwyn atal arloesol i brofi dull newydd o reoli rhifau a fydd yn addas i'r dyfodol.</p>	<p>Y diweddaraaf am y statws Ch3 2019/20</p> <p>Beta yn barod ar gyfer profi Ch4 2019/20</p>
---	--

Sicrhau safonau a gwella ansawdd

Manylion y Prosiect	Carreg Filltir
<p>Clirio'r band 700 MHz - cymorth ar gyfer PMSE: I gefnogi'r gwaith o glirio PMSE (Gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig) byddwn yn rheoli cynllun grant i ariannu cyfran o'r costau y bydd defnyddwyr PMSE yn eu hwynebu wrth iddynt golli mynediad i'r band 700 MHz. Byddwn yn parhau i hyrwyddo a galluogi'r defnydd o sbectrwm ychwanegol sydd eisoes wedi'i ddarparu ar gyfer PMSE yn y band 960-1164MHz.</p>	<p>Cwblhau'r gwaith o gofrestru ar gyfer y Cynllun Grant a dechrau ildio cyfarpar a thalu grantiau Ch 1 2019/20</p>
<p>Clirio sbectrwm 700MHz: Byddwn yn parhau i weithio i glirio gwasanaethau teledu digidol oddi ar y band 700 MHz er mwyn rhyddhau'r sbectrwm hwn ar gyfer data symudol. Byddwn yn parhau i weinyddu cynllun grantiau i ariannu'r costau ychwanegol a gaiff darlledwyr o ganlyniad i'r newidiadau mewn seilwaith sy'n gysylltiedig â chlirio'r band 700 MHz. Ein cynllun yw sicrhau bod y band 700 MHz ar gael i wasanaethau symudol erbyn mis Mai 2020.</p>	<p>Bydd digwyddiadau clirio'n parhau mewn ardaloedd yng Nghymru, de orllewin Lloegr, gogledd Lloegr, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel yn 2019/20</p>
<p>Polisi hysbysebu a rheoleiddio: Cyhoeddodd y Llywodraeth ei bwriad i ymgynghori cyn diwedd 2018 ar gyfyngiadau ychwanegol ar hysbysebion teledu ar gyfer bwyd a diod sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr, gan gynnwys gwaharddiad cyn y trothwy. Os bydd cyfyngiadau llymach yn cael eu cyflwyno, bydd yn rhaid i Ofcom a'i gyd-reoleiddwyr (BCAP a'r ASA) weinyddu hyn.</p>	<p>Yn amodol ar ymgynghoriad/datganiad y Llywodraeth</p>
<p>Radio Cymunedol Analog: Byddwn yn gwneud y gwaith cynllunio-sbectrwm gofynnol er mwyn sicrhau'r mynediad gorau posibl i radio cymunedol a chefnogi'r bedwaredd rownd o drwyddedu ar gyfer radio cymunedol analog</p>	<p>Y rownd wedi'i chwblhau Ch2 2019/20</p>

<p>Disgwyliadau cynulleidfaoedd mewn byd digidol: Mae'r ffordd mae pobl yn defnyddio'r cyfryngau yn esblygu'n gyson mewn byd sy'n newid yn gyflym - ac, oherwydd hynny, mae disgwyliadau yng nghyswllt cynnwys yn gallu amrywio'n fawr ar draws sawl llwyfan. Byddwn yn cynnal ymchwil i archwilio safbwyntiau a disgwyliadau cynulleidfaoedd ar gyfer safonau ar draws y gwasanaethau teledu, radio, ar-alw ac ar-lein. Ofcom sy'n gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau a ddarllidir a gwasanaethau ar-alw ac mae'n bwysig fod y rheolau sy'n berthnasol i'r gwasanaethau hyn yn briodol ac yn gymesur ac yn adlewyrchu'r newid yn y ffordd mae pobl yn gwylio a disgwyliadau cynulleidfaoedd.</p>	<p>Adroddiad Ch3/4 2019/20</p>
<p>Gweithredu'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMSD): Byddwn yn parhau i ymgysylltu â DCMS ar ei chynlluniau i roi'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol newydd ar waith a'r effaith bosibl ar Ofcom. Mae gofynion newydd yn y Gyfarwyddeb yn cynnwys Llwyfannau Rhannu Fideos (VSPs) i ddiogelu plant rhag cynnwys a all fod yn niweidiol ac i ddiogelu'r cyhoedd rhag deunydd sy'n cynnwys iaith sy'n ennyn casineb ac sy'n cymell casineb.</p>	<p>Ch2 2020/21 (cyfnod gweithredu 20 mis)</p>
<p>Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang (USO Band Eang) Bydd Ofcom yn rhoi rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar gyfer band eang ar waith. Yn benodol bydd Ofcom yn: dynodi un neu fwy o Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol i gyflwyno'r gwasanaeth; sefydlu'r rhwymedigaethau y bydd yn rhaid i Ddarparwr y Gwasanaeth Cyffredinol gadw atynt i gyflwyno'r cynllun yn unol â'r ddeddfwriaeth; a phennu sut y gellid digolledu'r costau i Ddarparwr Gwasanaeth Cyffredinol. Ein hamcanion wrth gyflwyno'r USO yw: cyflwyno'r USO cyn gynted â phosibl er mwyn i ddefnyddwyr fanteisio cyn gynted â phosibl; sicrhau bod unrhyw ddarparwr dynodedig yn gallu darparu gwasanaethau sy'n bodloni gofynion yr USO; a sicrhau bod cost cyflwyno'r USO, ac felly'r effaith ar ddiwydiant a defnyddwyr, yn cael ei lleihau i'r eithaf.</p>	<p>Datganiad Ch1 2019/20</p>
<p>Data traws-sector ar y farchnad gyfathrebiadau: Yn hytrach na chael adroddiad ysgrifenedig blynyddol ar y farchnad gyfathrebiadau, byddwn yn cyhoeddi porth data rhyngweithiol a fydd yn cynnwys yr holl brif setiau data y mae Ofcom yn eu casglu ar draws meysydd teledu a chlyweledol, radio a sain, teleffoni sefydlog a symudol, y nifer sy'n manteisio ar y rhyngwrwyd a'r defnydd ohono, a'r post. Byddwn yn ei ddiweddar'u'n gyson i sicrhau bod data mwyaf cyfredol Ofcom ar gael yn hawdd.</p>	<p>Porth data rhyngweithiol Ch2 2019/20</p>

<p>Strategaeth data: Byddwn yn defnyddio dull gweithredu a fydd yn galluogi Ofcom i wneud defnydd gwell o'r broses dadansoddi data a deallusrwydd artifffisial i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisiau a sicrhau y gall eraill gael gafael ar y data rydym yn ei ddal a'i fod yn haws ei ddefnyddio. Bydd hyn yn cynnwys datblygu sgiliau a dealltwriaeth yn y maes dadansoddi data a gwella offer a phrosesau.</p>	<p>Gweithredu'r dull ar sail archwiliad o'n galluoedd presennol a'r gofynion i'r dyfodol Ch1 2019/20</p>
<p>Datblygu strategaeth sbectrwm wedi'i diweddarau: Byddwn yn parhau â'n gwaith i ddatblygu ein strategaeth sbectrwm, gan gasglu gwybodaeth oddi wrth randdeiliaid i sicrhau bod sbectrwm ar gael er mwyn diwallu gofynion sy'n newid.</p>	<p>Gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid Ch2 2019/20</p>
<p>Darparu sbectrwm ychwanegol ar gyfer gwasanaethau symudol gan gynnwys gwasanaethau 5G: Byddwn yn ymgysylltu'n rhyngwladol ar raddfa Ewropeaidd ac yn fyd-eang i sicrhau bod amodau technegol sbectrwm ar gyfer y bandiau blaenoriaeth yn briodol ar gyfer gwasanaethau symudol, gan gynnwys gwasanaethau 5G. Byddwn yn parhau â'n gwaith i ddeall y galw am sbectrwm yn y dyfodol.</p>	<p>Cyfrannu at Gynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd-19</p>
<p>Adolygu'r Cod EPG a Dyfodol Amlygrwydd PSB: Yn 2018/19, fe wnaethom ymgynghori ar ddiweddiadau i adran amlygrwydd Cod EPG Ofcom, ynghyd â chynigion ar gyfer ymestyn y drefn amlygrwydd i wasanaethau ar-lein. Byddwn yn cyhoeddi casgliadau'r gwaith hwn yn gynnar yn 2019 [Ch4 18/19 neu Ch1 19/20].</p>	<p>Datganiad Ch4 2018/19 neu Ch1 2019/20</p>
<p>Gwella'r ddarpariaeth symudol (atebion sbectrwm): Rydym yn gweithredu er mwyn cael atebion sy'n seiliedig ar sbectrwm a allai gael eu defnyddio i wella'r ddarpariaeth symudol dan do ac mewn cymunedau gwledig. Er enghraifft, galluogi celloedd bach hunanosodedig, neu ryddhau sbectrwm y gellid ei ddefnyddio ar bŵer isel mewn lleoliadau penodol, neu newid y rheolau ar fynediad i sbectrwm er mwyn gallu datblygu atebion.</p>	<p>Datganiad Ch2 2019/20</p>
<p>Gwella'r wybodaeth i ddefnyddwyr am y ddarpariaeth sefydlog a symudol a pherfformiad: Rydym yn parhau i roi gwybodaeth gywir y gellir ei chymharu i ddefnyddwyr am rwydweithiau symudol a sefydlog drwy ein hoffer gwirio ar-lein a'r ap gwirio. Bwriadwn ddarparu'r un metrigau a ddarperir drwy'r mapiau a'r apiau gan ddefnyddio Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API). Bydd hyn yn gadael i sefydliadau allanol ddefnyddio data darpariaeth Ofcom yn eu cynigion a'u gwasanaethau eu hunain, gan ysgogi gwelliant yn yr wybodaeth a roddir i ddefnyddwyr.</p>	<p>Parhaus</p>

<p>Gwella'r ddarpariaeth symudol: Rydym yn parhau i ystyried ffyrdd o wella'r ddarpariaeth symudol, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig ac i gefnogi'r gwaith parhaus o ddyfarnu'r band sbectrum 700MHz. Mae'r gwaith hefyd yn ystyried ffyrdd o fesur y ddarpariaeth symudol, mewn ffyrdd sy'n ystyrlon i ddefnyddwyr.</p>	Parhaus
<p>Gwella hygyrchedd gwasanaethau teledu a gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS): Unwaith y bydd y Llywodraeth wedi gosod rheoliadau newydd yn y maes hwn (ar sail ein hargymhellion ni), byddwn yn ymgynghori ar God newydd ar ofynion Gwasanaeth Mynediad ar gyfer gwasanaethau ar-alw.</p>	Ymgynghoriad Ch2 2019/20
<p>Monitro amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y maes darlledu: Byddwn yn parhau i gyflwyno adroddiadau ar amrywiaeth yn niwydiant teledu a radio'r DU er mwyn rhoi darlun cynhwysfawr o sut mae darlledwyr unigol – a'r diwydiant drwyddo draw – yn hyrwyddo cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu sefydliadau.</p>	Cyhoeddi ail adroddiad ar y diwydiant radio Ch1 2019/20 Cyhoeddi trydydd adroddiad ar y diwydiant teledu Ch2 2019/20
<p>Adroddiad newyddion: Byddwn yn parhau i ddarparu trosolwg o agweddau ac arferion cael gafael ar newyddion ledled y DU, ar sail data ein harolwg blynyddol.</p>	Adroddiad Ch1 2019/20
<p>Adroddiad monitro'r sector post: Mae'n nodi data allweddol a thueddiadau yn y sector post fel rhan o'n dyletswydd statudol i sicrhau gwasanaeth post cyffredinol, gan ystyried effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol.</p>	Adroddiad blynyddol Ch3 2019/20
<p>Cyhoeddi adolygiad o ddeunydd newyddion a materion cyfoes y BBC: Bydd adolygiad Ofcom yn edrych ar sut mae'r BBC yn addasu i'r amgylchedd newyddion sy'n newid i sicrhau bod ei gynulleidfaedd yn dal i ymddiried ynddo. Byddwn yn edrych yn benodol ar sut mae'n ceisio darparu amrywiaeth o o gynnwys a dadansoddiadau treiddgar ar draws ei lwyfannau teledu, radio ac ar-lein. Bydd hefyd yn edrych ar sut mae'r BBC yn bod yn ddiuedd, ac yn asesu'r adnoddau a'r technegau y mae'n eu defnyddio i sicrhau hynny.</p>	Adroddiad Ch3 2019/20
<p>Cyhoeddi adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC: Byddwn yn nodi sut rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau ac yn asesu a yw'r BBC yn cydymffurfio â'r gofynion penodol yn y Fframwaith Gweithredu a'r Drwydded Weithredu. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar wahân yn mesur perfformiad y BBC o ran cyflawni'r genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus ar draws ei wasanaethau cyhoeddus.</p>	Adroddiad Ch3 2019/20

<p>Adrodd ar sut mae defnyddwyr a dinasyddion yn cael eu gwasanaethu gan apiau a chynnwys ar-lein: Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol newydd yn amlinellu'r tueddiadau yn y sector ar-lein ac yn asesu sut mae defnyddwyr a dinasyddion yn cael eu gwasanaethu gan apiau a chynnwys ar-lein.</p>	<p>Adroddiad Ch1 2019/20</p>
<p>Adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau yn y sector sefydlog a symudol: Byddwn yn rhoi metrigau mae modd eu cymharu ynghylch ansawdd gwasanaeth darparwyr cyfathrebiadau i ddefnyddwyr a'r diwydiant.</p>	<p>Adroddiad Ch1 2019/20</p>
<p>Adrodd ar lythrennedd oedolion yn y cyfryngau: Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau, gan edrych ar lythrennedd yn y cyfryngau ymysg oedolion y DU. Bydd yn cynnwys data ar ddefnydd, agweddau a dealltwriaeth oedolion 16 oed a hŷn yng nghyswllt cyfryngau, a sut mae'r rhain yn newid dros amser.</p>	<p>Adroddiad Ch1 2019/20</p>
<p>Adrodd ar lythrennedd plant yn y cyfryngau: Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau Plant a'u Defnydd o Gyfryngau, gan roi tystiolaeth fanwl am ddefnyddio'r cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth ymhlith plant a phobl ifanc rhwng 5 a 15 oed, yn ogystal â gwybodaeth fanwl am sut mae plant ifanc 3 i 4 oed yn cael mynediad at y cyfryngau ac yn eu defnyddio. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys safbwyntiau rhieni am ddefnydd eu plant o gyfryngau, a'r ffyrdd mae rhieni yn monitro neu'n cyfyngu ar ddefnyddio gwahanol fathau o gyfryngau.</p>	<p>Adroddiad Ch3 2019/20</p>
<p>Adrodd ar brofiad defnyddwyr o ffonau symudol: Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar berfformiad ffonau clyfar defnyddwyr. Bydd hyn yn cynnwys asesu perfformiad cysylltiadau symudol ar gyfer gwasanaethau data a llais a sut mae'r rhain yn amrywio yn ôl gwahanol ffactorau, gan gynnwys technoleg, daearyddiaeth a'r amser o'r dydd.</p>	<p>Adroddiad Ch3 2019/20</p>
<p>Adrodd ar berfformiad band eang yn y cartref: Byddwn yn adrodd ar ddata a gasglwyd gan banel o ddefnyddwyr band eang preswyl sydd ag unedau monitro wedi'u cysylltu â'u llwybrydd band eang. Bydd yn cynnwys asesu sut mae cyflymderau a metrigau perfformiad eraill yn amrywio yn ôl technoleg, darparwyr, amser o'r dydd a daearyddiaeth.</p>	<p>Adroddiad Ch1 2019/20</p>
<p>Adrodd ar ganlyniadau i gynulleidfaoedd yn y DU: Byddwn yn cyhoeddi ein hail adroddiad Cyfryngau'r Genedl, sy'n edrych yn gyffredinol ar sut mae cynnwys fideo a sain yn gwasanaethu cynulleidfaoedd y DU. Bydd yn asesu faint sy'n manteisio ar wasanaethau darlledu radio a theledu ac yn eu defnyddio, ac effaith</p>	<p>Adroddiad Ch2 2019/20</p>

gwasanaethau ar-alw a ffrydio fideo a sain, a bydd yn edrych yn ofalus ar y bygythiadau a'r cyfleoedd i ddarllledwyr gwasanaeth cyhoeddus.	
Adroddiad ar batrymau prisio: Byddwn yn rhoi adroddiad ar batrymau mewn prisio gwasanaethau sefydlog, symudol a theledu drwy dalu. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r prisiau sydd ar gael i ddefnyddwyr sy'n prynu mathau gwahanol o wasanaethau a chrynodeb o beth mae defnyddwyr, ar gyfartaledd, yn ei dalu. Bydd hefyd yn edrych ar strwythurau tariff a sut mae prisiau 'gostyngedig' yn amrywio o brisiau safonol i brisiau 'rhestr'.	Adroddiad Ch3 2019/20
Ymateb i ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau blynyddol Channel 4 Corporation: Byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad o sut mae Channel 4 Corporation yn cyflawni ei gynlluniau a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau ar gyfer y flwyddyn ganlynol, fel y nodir yn ei ddatganiad, ac yn cyhoeddi ein hymateb i hynny.	Adroddiad Ch2 2019/20
Adolygiad o gynnwys i blant: Byddwn yn cyhoeddi ymatebion darllledwyr i'n hadolygiad o nifer, amrywiaeth ac ansawdd y cynnwys sydd ar gael i blant.	Adroddiad ar ymatebion darllledwyr Ch2 2019/20
Adolygu'r canllawiau i ddarllledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynhyrchu y tu allan i Lundain: Byddwn yn adolygu'r canllawiau i ddarllledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSB) ar fodloni amodau eu trwydded o ran rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain ac yn y gwledydd, ac yn ystyried a yw'r rhain yn dal yn addas i'r diben o ran cefnogi a chryfhau cynhyrchu ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU.	Ymgynghoriad Ch3 2018/19 Datganiad Ch1 2019/20
DAB ar Raddfa Fach: Byddwn yn ymgynghori ar fframwaith trwyddedu arfaethedig ar gyfer amblecsau DAB ar Raddfa Fach, gan gynnwys meini prawf dyfarnu, amodau trwydded a chynllun amleddau, er mwyn cefnogi'r rownd gyntaf o drwyddedu gwasanaethau ac amblecsau ar raddfa fach.	Datganiad Ch1 2019/20 Hysbysebion trwyddedau Ch3 2019/2020
Rhannu Sbectrwm: Ystyried cyfleoedd i ddefnyddio'r sbectrwm yn effeithlon i'r eithaf, drwy agor y sbectrwm i chwaraewyr a busnesau newydd, lle nad yw'r sbectrwm hwnnw'n cael ei ddefnyddio, drwy rannu'n fwy helaeth pan fo hynny'n briodol. Canolbwyntio ar y canlynol i ddechrau: - Agor y sbectrwm i ddefnyddwyr ychwanegol yn y bandiau gwarchod 3.8-4.2GHz, 2.3GHz a 1800MHz. - Mynediad gan Drydydd Parti i'r Sbectrwm Symudol	Datganiad Ch2 2019/20

Byddwn yn cadarnhau ein dull gweithredu ac yn ystyried y ffioedd a'r dulliau awdurdodi priodol.	
Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC-19): Drwy weithio'n agos gyda'r Llywodraeth, bydd Ofcom yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y DU a phartneriaid yn Ewrop i ddatblygu safbwyntiau rhanbarthol y DU ac Ewrop i'w cyflwyno i Gyngor Radio'r Byd -19 gyda'r nod o sicrhau canlyniadau sy'n cyd-fynd orau â buddiannau'r DU.	Diweddariadau yn y cyfnod cyn WRC 2019

Diogelu defnyddwyr rhag niwed

Manylion y Prosiect	Carreg Filltir
Contractau ffôn ac amser ar yr awyr symudol wedi'u bwndelu: Rydym yn gweithio i sicrhau prisiau tecach a mwy tryloyw ar gyfer cwsmeriaid sy'n talu am ffonau symudol ac amser ar yr awyr dan yr un contract.	Ymgynghoriad Ch1 2019/20
Arferion Priso Gwahaniaethol: Ystyried tegwch arferion priso sy'n golygu bod defnyddwyr yn talu mwy am wasanaethau cyfathrebu oherwydd statws eu contract, hyd y contract neu nodweddion eraill.	Parhaus
Cynnwys niweidiol ar-lein: Cyfrannu at y trafodaethau polisi ynghylch rhoi sylw i gynnwys niweidiol ar-lein, gan ddarparu ymchwil cychwynnol ar ddisgwyliadau cynulleidfaoedd o ran safonau ar draws gwahanol gyfryngau.	Parhaus
Mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngwrwyd: Byddwn yn gweithio gyda darparwyr cyfathrebiadau i helpu i sicrhau bod problemau sy'n codi oherwydd y mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngwrwyd, gan gynnwys y posibilrwydd o ddiffodd PSTN yn y dyfodol, yn cael eu nodi ac yn cael sylw er mwyn diogelu defnyddwyr rhag niwed a lleihau ymyrraeth i'r eithaf.	Parhaus
Meithrin gallu ym maes seiberddiogelwch a pharhau i sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau'n rheoli risgiau diogelwch ac yn sicrhau lefelau priodol o gadernid: Byddwn yn rhoi gofynion dan Reoliadau'r Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS) ar waith. Mae'r rhain yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol ar ddarparwyr i ddiogelu gwasanaethau hanfodol y DU. Mae DCMS yn cwblhau dau beilot a gynhaliwyd ganddynt mewn perthynas â'r cynllun 'TBEST' - cynllun	Fframwaith asesu cydymffurfio â diogelwch Ch1 2019/20

<p>profion hacio ar sail gwybodaeth am fygythiadau sy'n asesu sut mae cwmni'n gwrthsefyll ymosodiad seiliedig ar y technegau y gwyddom fod seiberdroseddwyr a gwledydd gelyniaethus yn eu defnyddio. Unwaith y bydd y rhain wedi'u cwblhau, byddwn yn lansio ein cynllun TBEST yn gynnar yn 2019. Hefyd, rydym yn bwriadu lansio fframwaith asesu cydymffurfio â diogelwch yn gynnar yn 2019.</p>	
<p>Cyfranogiad a bregusrwydd: Gwaith Ofcom yn cefnogi anghenion a buddiannau'r rheini sy'n anabl, yn oedrannus, ar incymau isel neu'n byw mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal â bregusrwydd unrhyw unigolion eraill y mae'n ymddangos bod arnynt angen eu hamddiffyn yn arbennig oherwydd eu hamgylchiadau. Bydd Ofcom yn cyfrannu at y gwaith polisi hwn ar y cyd â Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU i wella'r canlyniadau i ddefnyddwyr bregus.</p>	Parhaus
<p>Prisiau Personol: Ystyried y gystadleuaeth bosibl a'r problemau i ddefnyddwyr a allai ddeillio o brisiau personol, gan gynnwys defnyddio 'Data Mawr' ac algorithmau i hwyluso prisiau personol.</p>	Parhaus
<p>Adolygu'r Amodau Cyffredinol a'r Amodau Gwasanaethau Cyffredinol er mwyn rhoi Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewrop ar waith: Byddwn yn adolygu'r Amodau Hawliau Cyffredinol (yr amodau rheoleiddio sy'n gwarchod defnyddwyr a busnesau bach), ac yn ystyried beth fydd angen ei newid o bosibl er mwyn cydymffurfio â'r Cod newydd.</p>	Adolygiad Ch3 2019/20
<p>Cefnogi defnyddwyr mewn marchnadoedd cyfathrebiadau: Byddwn yn monitro pa mor effeithiol yw'r cynlluniau y mae Ofcom yn eu cymeradwy neu'n eu goruchwyllo, sy'n cefnogi defnyddwyr yn uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau ADR a chynlluniau achredu prisiau Ofcom.</p>	Parhaus

Ymgysylltu yn ystod newidiadau i ddeddfwriaeth Ewropeaidd

Manylion y Prosiect	Carreg Filltir
<p>Rhoi deddfwriaeth Ewropeaidd berthnasol ar waith: Pan fo hynny'n briodol ac yn angenrheidiol, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i'w trosi'n gyfraith genedlaethol. Wrth wneud hyn, byddwn yn gweithio i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gymesur, yn briodol ac yn adlewyrchu'r heriau y mae'r sector yn eu hwynebu ac yn bodloni anghenion defnyddwyr nawr ac yn y dyfodol.</p>	Parhaus

Goblygiadau strategol natur ein perthynas â'r UE, sy'n newid: Nid oes gan Ofcom farn ynghylch Brexit. Byddwn yn parhau i roi cyngor i'r Llywodraeth fel bo angen i gefnogi ei thrafodaethau â'r UE ynghylch manylion ein perthynas yn y dyfodol. Pan fo hynny'n berthnasol, byddwn hefyd yn rhoi cyngor ar unrhyw newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen fel sail ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Wrth i'r broses esblygu, byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid er mwyn deall eu safbwyntiau a'u blaenoriaethau.

Parhaus

A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut mae ymateb

- A3.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau am y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 8 Chwefror 2019.
- A3.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/annual-plan-2019-20>. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.
- A3.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fydddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i Annualplan2019@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno (<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet>). At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl Ebrill 2019.
- A3.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:
Annual Plan Team, Strategy and Policy Team
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
- A3.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn laith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio laith Arwyddion Prydain:
- Anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVD. Neu
 - Gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.
- A3.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).
- A3.7 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y wond nid fel arall.
- A3.8 Byddai o gymorth pe gallai eich ymateb gynnwys cyfeiriad at yr adran a'r paragraff y mae'ch ymateb yn cyfeirio atynt. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

- A3.9 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i Annualplan2019@ofcom.org.uk.

Cyfrinachedd

- A3.10 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydyn ni'n cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk, cyn gynted ag y byddant yn dod i law.
- A3.11 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fydddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.
- A3.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A3.13 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/website/terms-of-use>

Y camau nesaf

- A3.14 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad ym mis Mawrth 2019.
- A3.15 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau drwy'r e-bost i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom; i gael rhagor o fanylion edrychwch ar <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/latest/email-updates>

Prosesau ymgynghori Ofcom

- A3.16 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 4.
- A3.17 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges i consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A3.18 Os hoffech chi drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Corporation Secretary
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
Email: corporationsecretary@ofcom.org.uk

A4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

A4.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol â phobl a chyrrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

A4.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A4.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A4.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A4.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom yw'r prif unigolyn i gysylltu ag ef i roi barn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.

A4.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

A4.7 Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau'r ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad: Cynllun Blynyddol 2019/20

At (cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd y ddogfen ymgynghori drwy'r e-bost):

CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

Dim rhan o'r ymateb

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd

Ymateb cyfan

Sefydliad

Rhan o'r ymateb

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? _____

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol neu'n rhoi'r gallu i'ch adnabod)?

DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw

Llofnod (os yw'n gopi papur)